YR YMOFYNYDD.

RHIF 58.] MEHEFIN, 1852. [CYF. V.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG.

(*Parhad o Tudal* 82.)

LLAWER o son sydd wedi bod am "hiraeth Cymro am ei wlad," a llawer o farddoniaeth ardderchog wedi ei gyfansoddi ar y testun. Y mae amryw enghreifftiau o'r hiraeth hwn, i'w cael ym marddoniaeth Iolo; ac y mae yn ei ganiadau lawer o orfoledd ar ei ddychweliad i Gymru o Lundain a lleoedd ereill. Gwelir hyn yn amlwg yn y dyfyniad canlynol—ac yn y pennill olaf, ceir lle i ddeall i'w ddychweliad gymmeryd lle cyn neu ym mis Mai, 1777.—

ESCAPE FROM LONDON.

"Whilst from the dew-bespangled lawn,
The lark ascends with early song—
I wake to bless the breezy dawn,
And walk my native meads among;
I tune the notes of rural glee,
Join in the morning minstrelsy,
With soul to youthful joys returned—
I love the grove, the verdant rill,
And long in hateful scenes for these I deeply mourned."

"Hear, London, hear my gladden'd song—
I dwell, I weep, no more in thee;
But leave, with Hell, thy grinning throng,
To scoff at Heaven that set me free;
On Hottentotic arts refine,
Let fashion's glories all be thine,

With luxury thy cubs delight;
My soul abhors thy lawless crew,
I bid thy shameless pomp adieu,
Avert my tortur'd looks that sicken'd at the sight."

"I'll hide in thee, dear native dale,
Where simple nature smiles around;
What healthful fragrance wings thy gale!
What vary'd beauties deck thy ground!
Bloom for thy Bard, thou lovely May,
Bid all thy warblers cheer my way,
Spread o'er my paths thy vernal hues;
Delighted in this lonely walk,
I'll bid my soul with reason talk;
And on her circled hills invoke the sylvan muse."

Lyric Poems—2. 37.

Dan ddylanwad dolydd a dyffrynoedd Morganwg, yr oedd yr awen yn cael ei chynhyrfu yn fynych, ac y mae lle i gredu mai yn y flwyddyn hon y cyfansoddodd y caniadau canlynol, sef, "Castles in the Air," "Love's Eloquence," "Winter's Incidents," "On Love," ac ereill. Ond tua diwedd y flwyddyn efe a glafychodd; yr oedd yn afiach iawn er yn blentyn, a pharhaodd felly ei holl ddyddiau. Ei brif glefyd oedd diffyg anadl *(Asthma)*; a dichon fod hyn yn achosi llawer o'r nwyddwylltineb a ddangosasai ar rai achlysuron. Ym mis Medi, 1780, ysgrifenodd ei "Hymn to Health, on recovering from a long and dangerous illness;" ac oddiwrth y geiriau hyn, gallasid meddwl ei fod wedi dioddef am ddwy flynedd, ond nid yw y gred hynny yn gysson a ffeithiau ereill, gan fod amryw o'i ganiadau, ac yn wir y rhan fwyaf wedi eu cyfansoddi yn y cyfamser. Ym mis Mai, 1778, ysgrifenodd ei bennillion ar "The Banks of the Daw," ac yn yr Hydref, ei linellau "At the Close of Autumn," ynghyd ag amryw ganiadau ereill. Yn agos i'r un amser, sef yn 1778, 1779, ag 1780, bu yn ymdrafferthu â'r rhyw fenywaidd, a chan y dichon mai efe ei hun oedd y "Damon," a'r "Corydon," a enwir yn ei ganiadau serch, o ba rai y ceir amryw yn gyfansoddedig y pryd hwnnw, y mae yn dra thebyg na fu ei garwriaeth yn hollol wastad; ac y mae lle i ddeall fod rhyw ferch ieuanc yr hon a elwir yn "Celia," wedi troi ei chefn arno. Yn 1779, gofynwyd iddo gan gyfaill am eglurhad o'i olygiadau crefyddol; y mae ei attebiad mewn barddoniaeth yn deilwng iawn o sylw, ac y mae sylwedd y cyfansoddiad yn gynnwysedig yn yr arwydd-air, sef, *Slave to no party, bigot to no sect.* Ychydig wedi hynny, sef yn y flwyddyn ganlynol, cyfeiriodd ddwy neu dair o ganiadau campus at amaethwyr Morganwg; a'r flwyddyn ar ol hynny, efe a ymglymodd yn yr ystad briodasol; ac oddiwrth un o'i bennillion ef ar yr achlysur, ymddengys i'r briodas gymmeryd lle ar y trydydd ddydd o fis Mehefin (1781). Ei wraig oedd Margaret, merch i Rees ac Elizabeth Roberts, o Marychurch, ym Morganwg, ac o honi efe gafodd bedwar o blant, sef, Taliesin (ab Iolo), Peggy Williams (Waring), Ann, gwidw William Gwilt, o Ferthyr, yr hon sydd etto yn fyw, a phlentyn arall, yr hon a fu farw yn 1793.

Ei holl fywgraffwyr a ddywedant iddo ganlyn ei alwad, sef saer meini, oddiar ei ddychweliad i Forganwg, hyd ei ddyddiau diweddaf; ac y mae yn ddiammau fod y dywediad yn wir; ond y mae lle i ddeall iddo gadw fferm

hefyd yn rhyw ran o'i oes, a dichon mai ar ol priodi y dygwyddodd hynny. Etto gan mai dychymmyg yw hyn, a chan nad oes gennyf un awdurdod hanesyddol dros yr haeriad, byddai yn gystal imi roddi'r ffeithiau a'm tueddant i fabwysiadu'r gred—

"I live on my farm in a beautiful vale,
Ye lovers of nature attend to my tale;
No pride or ambition find room in my breast,
Those venomous foes of contentment and rest;
From sound, healthy sleep, I rise up every morn,
To toil in my field, with my cattle and corn;
And prefer, whilst of rural employments I sing,
The life of a Farmer to that of a King."

Poems—1. 162.

Mewn man arall, y mae yn dweyd fel hyn—

"Pleas'd with my little flock of sheep,
That on my native downs I keep;
Mine are the joys of peace and health,
And sure I want no greater wealth;
No vain desires my soul infest,
Nor dwells ambition in my breast—
Heav'n, all such follies to prevent,
Train'd all my thoughts to soft content."

Poems—1. 184

Oddiwrth gynnwysiad y caniadau hyn, ac oddiwrth gynnwysiad caniad arall, i'r "Journeymen Masons," yr hon a gyfansoddwyd yn 1785, gellid meddwl fod ei gyflwr yn dra dedwydd; ond dygwyddodd rhyw anghydfod rhyngddo ef a'i deulu yn yr amser hyn. Barnodd i'w berthynasau ymddwyn tuag atto yn angharedig, ac am hynny penderfynodd nad elai byth mwyach o fewn i dŷ perthynas.—*(Malkin's South Wales*, 1, 199*)*.

Y mae yn amlwg fod ei deimladau wedi cael eu clwyfo, a'i ddigllonrwydd wedi ei gynhyrfu i raddau pell iawn yn y cyfamser, a dichon ei fod dan ddylanwad y loes hwn, pan gyfansoddodd y llinellau canlynol—

"SONNET

"*Written under Cheddar Cliff, in Somersetshire, in April*, 1786.

"Glad is yon lark that soars on early wing,
With sprightly carol to the rising morn,
And glad the blackbird on yon budding thorn,
That hails, with songs of joy, returning Spring.
Whilst hearing from afar the Shepherd sing
Of blooms delightful that his meads adorn—
I walk through gloomy life, and here, forlorn,
Haunt craggy dells, where doleful echoes ring,
A refugee from spite's unweary'd sting—
By rapine wrong'd, by grief untimely worn,
Yet still by conscious innocence upborn;
I call to thee, O, Heaven's eternal King,
And with a soul by talon'd envy torn,
Stand plaining at thy throne, and to thy mercy cling."

Poems—2. 153.

Y mae dywediad gan y Saeson—

"A woman's like an April shower,
Rain and sunshine in an hour."

Ac yr oedd yr un anwadalwch yn perthyn i Iolo. Gwelwn ef un amser yn cwyno fel pe bai diwedd y byd gerllaw, a phryd arall ceir ef mor llawen a cheiliog y rhedyn; yn 1786, yr oedd yn wylo dagrau ynghreigiau Gwlad yr Haf, ac yn 1789, cawn ef yn gofyn—

"Say, why, my friend, wouldst thou persuade
Thy Bard to quit his tranquil shade?
He dwells contented with his lot,
Hid from the world in humble cot;
And heedless of the glare of wealth,
Finds all he wants in peace and health;
With hopes, when well matur'd by age,
To find himself a rural Sage."

Poems—1. 142.

A'r flwyddyn olynol (1790), gwelwn ef mewn llinellau rhagorol, yn adrodd ei brofiadau eilwaith—

"SONNET

"*Written in* 1790, *To the Memory of my Mother, who died August* 20, 1770.

"Since first I mourn'd thee, number'd with the dead,
I've known distress in ev'ry woeful form,
Through twice ten years, and o'er my batter'd head
With fellest rage, has blown the wintry storm.
Oh, my *lost mother!* still I weep for thee—
Safe in thy care I pass'd through feeble youth;
Unschool'd beside, I, tutor'd at thy knee,
Caught from thy lips, the sacred love of truth.
Heav'n in thy looks, beam'd on my tender mind,
Till dawn'd the muse, in thoughts by thee refin'd;
How kindled through my soul her purest flame!
Whilst memory the briny tear supplies,
In anguish, pointing to supernal skies,
I teach my lisping babes to bless thy name."

Poems—2. 97.

Yr oedd y rhan fwyaf o'i farddoniaeth Saes'neg wedi ei gyfansoddi cyn ei briodas; ar ol hynny, gofalon bywyd a bwysasant ar ei ysgwyddau, ac fel y darfu i'w deulu amlhau, a'i anghenion gynnyddu, cafodd lai o hamdden i ymhyfrydu mewn barddoniaeth, a syrthiodd yr awen i radd o ddiystyrwch. Hyd yma yr oedd ei dalentau yn anadnabyddus i'r cyhoedd, ond daeth y *General Election* yn 1790, a hwynt i'r golwg. Ar yr achlysur hwnnw, dangosodd y Bardd ei daubeidrwydd arferol—daeth ei ymdrechion barddonol ac ef i sylw mawrion Morganwg; ac annogwyd ef i gyhoeddi ei ganiadau. Llwyddodd yn yr amcan tu hwnt i'w ddisgwyliad; cafodd res helaeth o danysgrifwyr, ac yn eu plith heb achos enwi llawer o foneddigion a boneddigesau, yr oedd enwau Wilberforce a General Washington. Fel hyn yr oedd pob peth yn myned yn y blaen yn hwylus, a haul cyfiawnder yn tywynu uwch ei ben; ond unwaith etto gorchuddiwyd ef gan gymmylau.

Pris enwogrwydd yw eiddigedd—yr oedd Iolo wedi ennill clod a pharch—a thrwy hynny yr oedd wedi creu gelynion, ac y mae yn eu ceryddu yn llym am eu hymosodiadau. Yr oedd golygiadau crefyddol Iolo yn ei osod yn agored i'r *odium theologicum;* ac yr oedd ei adnabyddiaeth a Thomas Paine, a'i ymbleidiad gwresog o'r chwildroad cyntaf yn Ffraingc, yn creu gelynion gwleidiadol; a chan ei fod yn byw mewn oes pan oedd rhyddymofyniad yn berygl, ac ymddygiad annibynol yn drosedd—yr oedd dyn mor onest a thafodrydd a'r Bardd, yn sier o fyned dros ei ben mewn trafferthion. Ymaflwyd yn y pethau hyn gan ei elynion, ac archollwyd ef pan nad oedd yn tybied fod y saethau yn cael eu hergydio yn ei erbyn; ond gwell fydd iddo ef gael adrodd yr hanes ei hun, mewn cyfieithad o'r rhan flaenaf o'r rhagymadrodd i'w *Lyric Poems*—

"Y mae fy nghyhoeddiad bychan yn ymddangos ar ol hir oediad. Dygwyddodd rhai gwrthwynebiadau oddiwrth fy sefyllfa fywydol: yr oedd y rhai hyn yn anocheladwy, ond y rhan fwyaf heb eu rhagweled. Taflwyd ereill ar y ffordd trwy ddichellion cenfigen, o herwydd y llwyddiant a gefais, a'r cyfeillachau gwerthfawr a ffurfiais am ychydig o amser wrth ddechreu fy nghasgliad o danysgrifwyr. Yr oeddwn mewn anffod, neu yn hytrach mewn ffolineb, wedi ymddiried mewn rhai dynion a fernais yn gyfeillion; a thrwy hynny daethant i wybodaeth ym mha fodd ac ym mha le i'm clwyfo. Gwneuthant hyn—bydded iddynt fwynhau eu gweithred. Yr oeddwn, ac yr wyf etto, yn bwriadu myned i America, mewn rhan i waredu fy hun o'r anafau lluosog a dderbyniais oddiwrth gyfreithiau ymffrostedig y wlad hon, y rhai nid ydynt wedi eu gwneyd i'r tlawd yn gystal a'r cyfoethog; ac nid oes nemawr o enghraifft ar gael, fod dyn tlawd, heb gyfeillion cyfoethog, erioed wedi cael cyfiawnder yn ein llysoedd cyfreithol. Amcan arall oedd gwirio tyb gyffredin yng Nghymru, ar awdurdod da, fod etto yn fyw yn y rhannau tufewnol o'r Cyfandir Americanaidd, weddill a drefedigaeth Gymraeg, a aeth drosodd yno yn y 12fed ganrif, dan lywyddiaeth Madoc ab Owain Gwynedd. Rhyw *wag* chwedl-helwr a osododd hanes am y bwriad hwn yn newyddiaduron *Bath*, a chopiwyd y chwedl o'r rheini i bapurau Llundain a'r newyddiaduron gwledig, gyda diwydrwydd a barodd imi ryfeddu am beth mor ddistadl. Ymaflodd fy ngelynion yn y chwedl i lymhau y llafn oedd yn awr wedi ei dynnu yn fy erbyn—dywedwyd fy mod ar fedr myned i'r Amerig ag arian fy nhanysgrifwyr yn fy llog, ac nad oedd fy nghaniadau yn yr wasg—a dywedodd rhai fy mod wedi myned. Bu yn hir cyn imi glywed am yr athrod hwn, a rhoddodd fy nyfalwch innau gefnogaeth i'r dywediad, gan fy mod mor anwybodus ac y gallai dyn fod, o natur fy ngorchwyl, ac o'r drafodaeth argraffyddol. Yr oeddwn yn ddyfal o herwydd achosion ereill hefyd—yr oeddwn ymhell oddiwrth fy nheulu, yn yr hwn yr oedd fy nedwyddwch yn hanfodi. Yr oeddwn hefyd yn wybyddus am ddiffygion a beiau fy nghyfansoddiadau, yr hyn a barodd imi oedi yn fynych i'w cyweirio a'u hadolygu cyn eu gollwng i'r wasg. Yr oedd boneddion o'r galluoedd blaenaf yn barod i'm cynnorthwyo, ond dewisais wneyd hebddynt, gan y dymunaswn i'r byd gael gwir waith saer meini hunan-ddysgol. Yr wyf yn gwybod fy mod weithiau wedi gwaethu yn lle gwellhau fy nghyfansoddiadau. Dichon y bydd i rai gymmeryd hyn yn esgusodiad: achoswyd hynny gan deimladau, am ba rai ni chywilyddiaf—ac ni wna pawb fy meio.

"Oddeutu mis Tachwedd, 1792, yr oeddwn wedi argraffu'm caniadau

hyd ganol yr ail gyfrol ; ond yna darfyddodd fy *stock* fechan o arian, ac nid oeddwn yn alluog i ddweyd hynny wrth yr argraffydd, yr hwn fel y deallais yn ol llaw a fuasai yn fy nghynnorthwyo. Hysbysais hyn i'm noddwyr—yr oeddent yn ddigymhell wedi addaw cynnorthwy imi, os byddai hynny yn anghenrheidiol, ac wedi fy annog i ofyn am hynny yn ddibetrus. Ond yn awr yr oeddent oll yn ddistaw, ac attaliwyd oddiwrthyf mewn rhai mannau y tanysgrifiadau oeddent eisioes wedi eu casglu. Nid oeddwn etto yn gweled yr achos. Ysgrifenais hanes o'r pethau hyn at Mrs. a Miss Harriet Bowdler, o *Bath*, a'r boneddigesau addfwyn ac ewyllysgar hynny—i ba rai yr oeddwn eisioes dan fil o rwymau o'r mawredd mwyaf, a ddanfonasant attaf yr hyn a ofynais, cyn gynted ac y gallasai'r *post* ei ddwyn. Yr wyf ar achlysuron cyffelyb, dan yr un rhwymau i'm cyfeillion hynaws yn Llundain, sef Mr. Owen Jones, a Mr. William Owen. Y boneddigesau a'r boneddigion hyn a ymfoddlonant heb yr ymadroddion cyffredin a ddynodant ragrith yn hytrach na diolchgarwch.

"Buasai pob peth yn iawn yn awr, a buasai fy nghaniadau yn ymddangos ar fyr, oni buasai imi glywed am farwolaeth (o'r hyn oeddwn wastad yn ofnus), un o'm *plant anwyl*, *geneth ieuange gu*, gyda'r hon aeth mwy o lawenydd fy mywyd nac a ennillaf yn ol byth yn y byd hwn. Aethum adref, ac yno arosais am wyth neu naw mis. Maddeuaf bob peth i'm gelynion, ond eu bod wedi fy nghadw oddicartref pan oedd fy hardd ferch fechan yn galw arnaf yn awr angau. Y mae rhif fechan, a'r rheini y rhan werthfawr-occaf o ddynolryw, i ba rai ni fydd yr amgylchiad hyn yn esgusodiad annerbyniol am y flwyddyn o oediad ychwanegol ; ni fuaswn mor geintachlyd a hyn oni buasai fod diheurad yn ddyledus i'm tanysgrifwyr—a pheth allasai hynny fod, ond y gwirionedd."

(I'w barhau).

RHESYMAU YN ERBYN EWYLLYS-RYDD PHILOSOPHYDDAIDD.—Dos. V.

Mae y trydydd ymresymiad dros angenrheidrwydd yn cyfodi oddi wrth *ganlyniadau* gwrthun a niweidiol ewyllys-rydd philosophyddedd.

1. Mae rydd-did philosophyddol yn bwrw fod *effeithiau yn bod heb un achos iddynt, neu fod yn rhaid fod rhagfynediad diderfyn o ewyllysiadau* i'r ewyllysiad weithredol.

Pan y byddo ewyllysiad yn cyfodi yn y meddwl, y mae yn naill ai yn cael ei ddwyn gan annogaeth, neu y mae yn cyfodi o honi ei hun, neu y mae yn effeith ewyllysiad blaenorol.

Os ydyw yn cael ei dwyn gan annogaeth, angenrheidrwydd ydyw hynny ; os ydyw yn cyfodi o honi ei hun, effeith heb un achos ydyw ; os canlyniad ewyllysiad blaenorol, rhaid naill ai bod yr ewyllysiad blaenorol honno yn cyfodi o honi ei hun, neu ei bod yn cael ei chynnig gan annogaeth, neu yn effeith ewyllysiad blaenorol arall, ac felly ym mlaen hyd yn ddiderfyn, yr hyn sydd chwithig.

Mae rhai wedi dal, fod y meddwl yn dewis yr annogaeth gan yr hon ei lywodraethir pan y byddo amrywiol o annogaethau, a'r rheini yn ymryson, yn cael eu gosod o flaen ei olwg—ond nid ydyw hyn ond bwrw fod ewyllysiad yn rhagflaenu yr ewyllysiad sydd yn dwyn y gweithrediad ; ac wrth reswm cyfartal, mae yr ewyllysiad hyn yn gofyn ewyllysiad ragflaenorol, ac

felly yn y blaen hyd yn ddiddiwedd, fel ag y mae pob ewyllysiad gweithredol pendant yn gofyn rhagfynediadau diddiwedd o ewyllysiadau i'w dwyn.*

2. Nid ydyw rhydd-did philosophyddol fel ei gosodir allan gan rai o'i hymddiffynwyr goreu, o *fawr gwerth;* oblegid y mae yn cael ei chyfyngu o fewn amgylchiad nad ydyw braidd os byth yn cymmeryd lle, sef, yr un yn yr hwn y mae yr annogaethau yn berffeith gyfartal.

3. *Mae rhydd-did philosophyddol yn cymmysgu y gwahaniaethad rhwng rhinwedd a drygioni.*†

Ar y sail hon, mae y bod sydd yn gweithredu oddiar yr egwyddorion, y tueddiadau a'r arferiadau goreu, yn analluog i fod yn rhinweddol os y bydd yn ymddifad o rydd-did; ac y mae y bod sydd yn gweithredu dan ddylanwad yr egwyddorion, a'r serchiadau gwaethaf yn analluog yn yr un modd i fod yn ddyn drwg. Mae sylwedd rhinwedd a phechod gan hynny yn gynnwysedig mewn rhydd-did. Ond mae perthynas cydradd rhwng pob gweithred ewyllysiol a rhydd-did philosophyddol; am hynny, mae pob gweithred ewyllysiol yr un mor dda neu mor ddrwg a'i gilydd; hynny ydyw, nid oes un gwahaniaeth moesol rhwng un weithred a'r llall. Er siampl, nid ydyw caredigrwydd heb rydd-did yn un rhinwedd; ac nid ydyw ysgelerder *(malignity)* heb rydd-did yn bechadurus. Mae'r ddau yn gyfartal mewn sefyllfa nad ydyw na'r naill na'r llall. Chwanegwch gyfran o rydd-did at y ddau; mae caredigrwydd yn ddioed yn myned yn rinwedd nodedig; ac ysgelerder yn ddrwg atgas. Hynny ydyw os chwanegwch bethau yr un faint at bethau yr un faint, mae y ddau swm yn peidio bod yr un faint! Wrth yr un rheswn, os rhoddwch ym mhob un o ddau lestr a dwfr glân, ronyn o halen, mae y naill yn cael ei droi yn ddracht iachus, a'r llall yn wenwyn marwol; neu os rhoddwch yr un faint o bwysau ym mhen tafol ag y fyddo eisioes yn cydbwyso, chwi ddinystriwch y cydbwysiad *(equilibrium)!* Ni all fod dim yn fwy gwrthun na'r fath beth.

4. *Mae yr athrawiaeth o ewyllys-rydd philosophyddol yn beryglus i rinwedd.*

(1.) Gan ei bod yn gwneuthur i rinwedd a phechod fod yn gynnwysedig mewn rhywbeth gwahanol oddiwrth, ac yn wir, yn anymddibynnol ar annogaeth, arferiad, a character; y mae yn tueddu i leihau yr astydrwydd ddylai gael ei dalu i ddysgyblaeth y meddwl, i ffurfiad egwyddorion uniawn, ac i gyrhaeddiad arferiadau rhinweddol.

(2.) Annoga gred mewn gallu hunan benderfyniadol berson dibrofiad ac anystyriol i anturio, os bydd manylgais *(curiosity)* neu dueddiad yn annog, i amgylchiadau o demptasiwn a pherygl, am ei fod yn meddwl ei fod yn meddu ar allu digonol i orchfygu pob annogaeth i bechod, ac os bydd ei rinwedd wedi cael ei orchfygu lawer a llawer gwaith, nid ydyw yn ofni anturio i'r un peryglon, am ei fod yn credu fod yn ei allu i wneuthur dewisiad gwahanol mewn amgylchiadau yr un peth yn hollol. Ac y mae profiad yn dysgcu fod tyrfaoedd beunydd yn syrthio yn ysglyfaeth i'r hunan-dwyll peryglus hwn.

---

* Edwards on the Will: Part ii., sec. 4. Priestley's Illustrations: sec. 4. Correspondence with Price; Page 344—348, 381—385. Price and Priestley; Page 340—349, 381—405.

† "Pe na bai gan ddyn allu," hyny ydyw, ewyllys-rydd, "ni allai na bod yn gall nag yn ffol, nag yn rhinweddol, nag yn bechadurus."—Reid on Active Powers: Page 328.

O'r tu arall, mae yr angenrheidiwr, yr hwn sydd yn gyson a'i egwyddorion yn gwybod, beth bynnag fyddo grym ei egwyddorion rhinweddol, a sefydlogrwydd ei arferiadau rhinweddol, fod profedigaethau, y rhai ydynt yn gorchfygu y rhinwedd mwyaf perffeithlawn; ac am hynny ni rydd ei hunan yn afreidiol yn agored i gael ei hudo gan un o honynt. Ac os ydyw wedi cael allan trwy brofiad, fod ei benderfyniadau rhinweddol mewn un amgylchiadau wedi methu a sefyll, gan gael ei sicrhau gan ei egwyddorion athrawiaethol, y bydd yn sicr o weithredu yn yr un modd yn yr un amgylchiadau, gwel yn amlwg mai ei unig ddiogelwch ydyw cadw ymaith o'r *demptasiwn.*

Dr. Priestley.—"Cyfansoddodd y diweddar Dr. Priestley gorph o nodiadau *(notes)* ar yr Hen Destament a'r Newydd mewn tair cyf. 8-plyg; cyhoeddedig yn Northumberland, America, 1804. Er fod y Doctor yn cadw ei gredo ei hun *(Undodiaeth)* yn barhaus yn y golwg, yn neillduol pan yn sylwi ar y testunau hynny, a ddyger ymlaen gan fobl grefyddol eraill dros yr eiddynt hwy; er hynny y mae ei waith yn cynnwys llawer o nodiadau a sylwadau gwerthfawr, yn enwedig ar philosophyddiaeth, anianyddiaeth, daear-ddarlun, ac amseryddiaeth yr Ysgrythyrau; ac nid oedd nemawr dynion yn Ewrop yn fwy cymmwys i wneuthur cyfiawnder a'r pyngciau hyn nag ef."—*Adam Clarke's Commentary, General Preface, page* 10.

Yn ei sylwadau ar y gair olaf yn yr adnod olaf o'r Beibl, neu'r Testament Newydd, dywed Dr. Adam Clarke fel hyn:—"*Amen*: Felly y byddo, ac felly y bydd, byth bythoedd. Ni ddylai barn Dr. Priestley ar wirionedd y llyfr hwn, a'r dull y mae wedi ei ysgrifenu, ddim cael ei gadw oddiwrth y darllenydd dysgedig na'r duwiol. 'Yr wyf yn ei hystyried yn amhossibl i un dyn deallus a theg, i ddarllen y llyfr hwn, heb gael ei daro mewn modd grymus iawn gan urddas ac ardduniant neillduol ei gyfansoddiad, uwchlaw eiddo un ysgrif pa bynnag; fel ag i gael ei argyhoeddi, ag ystyried yr oes y cafodd ei ysgrifenu, nas gallasai neb ond person wedi ei ysprydoli gan Dduw ei ysgrifenu. Y mae'r prophwydoliaethau hyn hefyd wedi cael eu hysgrifenu yn y fath *ddull* ag i'n bôddloni fod y digwyddiadau a osodir allan wedi eu rhagweled mewn gwirionedd, gan eu bod yn cael eu desgrifio yn y fath ddull, fel na allai neb heb y fath wybodaeth, byth ei wneud. Y mae hyn yn gofyn y fath gymysgedd o *eglurder a thywyllwch* ag na chafodd ei ddynwared erioed etto gan neb ffugwyr prophwydoliaethau pwy bynnag. Y mae *forgeries*, f'ont wedi eu hysgrifenu ar ol y digwyddiadau, wedi bod bob amser yn *rhy eglur.* Dim ond yn yr Ysgrythyrau, ac yn neillduol yn Llyfr Daniel, a'r Datguddiad, yr ydym yn cael y cymysgedd dedwydd hwn o eglurder a thywyllwch wrth osod allan ddigwyddiadau dyfodol.'" Felly dyma garacter lled uchel i'r gwir fawr a'r anfarwol Dr. Priestley, gan un o'r ysgolheigion mwyaf enwog ymhlith yr Ymneillduwyr yn ei oes. B.

Am Bleidgarwch a Difaterwch.—Gellir dywedyd fod y naill wedi lladd ei gannoedd a'r llall ei filoedd. Yn fynych gwelir y ddau ddrwg yn cyfarfod yn yr un dyn. Bydd y dyn hwnw yn ddifater am bob peth na fyddo yn ochri at ei rag-dybiau ef a'i blaid. Nid oes neb o honom fe allai yn gwbl rydd. Ond peth tra hyfryd ydyw gweled cariad at wirionedd yn gorchfygu pleidgarwch.

CYF-RESYMAU WOLZOGENIUS.

(*Parhad o Tudal* 88.)

YN DANGOS FOD TRAGYWYDDOL FODOLAETH MAB DUW, TRWY GENHEDLIAD Y TAD, YN DADYMCHWELYD EI HUN.—DOS. II.

1af. Y mae'n canlyn oddiwrth yr athrawiaeth, fod y Mab yn Fab iddo ei hun ac yn Dad iddo ei hun. Fel hyn—

Y Mab a genhedlwyd o hanfod y Tad—Yr un yw hanfod y Mab a hanfod y Tad;

Gan hyny, fe'i cenhedlwyd ef o'i hanfod ei hun.

2il. Y mae yn canlyn, fod Crist yn bodoli er pob tragwyddoldeb, ac nad oedd yn bodoli felly; ei fod ef ar yr un pryd *yn bod*, ac *ddim yn bod*. Fel hyn—

Yr oedd y Duw Mawr yn bodoli er pob tragwyddoldeb—Crist yw y Duw Mawr;

Gan hyny, yr oedd Crist yn bodoli er pob tragwyddoldeb.

Nis gall yr hyn a genhedlwyd fod wedi bodoli er pob tragwyddoldeb—Crist a genhedlwyd;

Gan hyny, nis gall fod Crist wedi bodoli er pob tragwyddoldeb.

YN DANGOS FOD YMGNAWDOLIAETH MAB DUW YN DADYMCHWELYD EI HUN.—DOS. III.

1af. Y mae yn canlyn oddiwrth yr athrawiaeth hon ddarfod nid yn unig i'r Mab, ond y Tad a'r Ysbryd Glân, ymgnawdoli a chymeryd arnynt y natur ddynol. Fel hyn—

Yr un yw natur ddwyfol y Tad, Mab, ac Ysbryd Glân—Darfu natur ddwyfol y Mab gymeryd arni y natur ddynol;

Gan hyny, darfu natur ddwyfol y Tad a'r Ysbryd Glân, hefyd gymeryd arnynt y natur ddynol.

2il. Y mae yn canlyn ddarfod i'r ail berson o'r Duwdod beidio a bod yn berson. Fel hyn—

Yr oedd person Crist yn gynnwysedig o'r natur ddwyfol a'r natur ddynol—Nis gall un *rhan* o berson gael ei alw yn berson;

Gan hyny, nid oedd natur ddwyfol Crist yn berson.

3ydd. Os oedd natur ddynol Crist yn berson, nis gallasai y natur ddwyfol fod yn berson. Fel hyn—

Nid oedd Iesu Grist yn ddau berson eithr un person—Yr oedd y *dyn* Iesu Grist yn berson;

Gan hyny, nis gallasai y natur ddwyfol fod yn berson.

YN DANGOS FOD YR ATHRAWIAETH FOD YR YSBRYD GLAN YN DRYDYDD PERSON YN Y DRINDOD, YN DADYMCHWELYD EI HUN.—DOS. IV.

Fel hyn—

Os ydyw'r Ysbryd Glân yn berson ag sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab, yna yr oedd yr Ysbryd Glân yn Fab y Tad yr un cystal a'r Mab; ac hefyd yr oedd y Mab yn Dad i'r Ysbryd Glân—Ond nid oes ond *un* Tad; ac nid oes dau o Feibion, eithr un Mab yn unig;

Gan hyny, nid yw yr Ysbryd Glân yn berson ag sydd yn deilliaw felly.

C.

A OES Y CYSYLLTIAD LLEIAF RHWNG ATHRAWIAETH Y DRINDOD A GWEITHREDOEDD DA?

Syr,—Dichon y bydd i rai o'ch darllenwyr ryfeddu fy mod yn cynnyg trafod y fath gwestiwn yn yr *Ymofynydd.* Ble clywyd son am y fath gwestiwn, nac mewn ysgrifen nac mewn argraff nac mewn pulpit ychwaith? Pwy erioed sydd wedi haeru fod cysylltiad rhwng credu mewn Trindod a bod "yn awyddus i weithredoedd da?" Yr wyf yn cydnabod yn rhwydd y dichon bod rhai wedi cynnyg gwneud y fath beth, er na ddigwyddodd i mi wybod hyny am danynt. Yr ydwyf wedi darllen mewn llyfrau, ac wedi clywed lawer gwaith a'm clustiau ddysgawdwyr yn dywedyd yn groyw ddigon, fod gwadu Trindod o bersonau yn sicr o arwain i uffern; ond erioed ni chlywais etto neb yn ceisio dangos, fod credu Trindod yn arwain i weithredoedd da.

Beth all fod yr achos o hyn—a gadael nad yw fy mhrofiad i ar y pen ddim yn mhell o'i le? Ai hyn, o bosibl, ydyw'r achos; sef, mai un peth y tybir fod ymwared rhag uffern—peth arall, bod yn awyddus i weithredoedd da? Oherwydd pe felly y buasai yn bod, ni fuasai'r arferiad cyfeiriedig yn ymddangos mor anghyson. A rhaid addef, os yw iechydwriaeth a nefoedd yn annibynol ar weithredoedd da, nad ydyw yn un gwrthreswm yn erbyn athrawiaeth y Drindod, ei bod hithau hefyd yn ymddifad o un cysylltiad â gweithredoedd da.

Ond, o'm rhan i, yr wyf yn credu—ac heb groesi addysgiadau rheswm a phrofiad ac ysgrythyr nis gallaf lai na chredu—nad oes un nefoedd i'w chael oddieithr mewn gweithredoedd da. Na thasged y darllenydd ac na thramgwydded wrthyf; eithr darllened gof-lyfrau'r Efengyl, yn bwyllog ac yn ddiduedd, ac fe gaiff weled, a hyny mor amlwg a'r dydd,—mai nid pethau diwerth neu ddibwys yngolwg Duw a Christ, yw gweithredoedd da—eithr mai dyma ydyw y "rhan dda," mai dyma'r "wisg briodas"—mai yn hyn yma y cyflawnir amcan daionus grâs Duw yn yr Efengyl—ac mai dyma y brynedigaeth trwy Grist, trwy yr hon y gwneir dynion "yn bobl briodol iddo ef":—sef, eu dwyn i fod "yn awyddus i weithredoedd da." Ac os yr ymddengys—fel yr wyf yn barnu yr ymddengys—nad oes mor un cysylltiad rhwng athrawiaeth y Drindod a gweithredoedd da, fe ymddengys ar yr un pryd y byddai yn llawn cystal, os nad yn well o lawer i ddodi yr athrawiaeth honno ar y *shelf* bellach. Ond gofynir, Pa beth yw Trindod o bersonau dwyfol, y rhai, ynghyd, nid ydynt ond un Duw? A *gweithredoedd da,* pa beth y'nt hwythau? Cyfaddefir, os nad wyf yn camsynied, mai haws rhoddi atteb boddlonol i'r olaf nag i'r blaenaf o'r cwestiynau hyn.

Wrth weithredoedd da byddaf fi yn deall—nid unrhyw gyflawniadau allanol yn unig, heb wneud cyfrif o ddiben ac amcan yr hwn sydd yn eu cyflawni—nid twyll-gyfiawnder fel eiddo'r Phariseaid gynt—eithr gweithredoedd a gyfodant *oddiar anian a diben da,* a gyflawnir yn ffyddlon ac ewyllysgar *yn ol* y *rheol dda;* ac fel y cyfryw gydag amcan a *thueddiad* daionus.

Nid oes un amheuaeth yn fy meddwl i, nad amcan mawr yr oruchwyliaeth Gristnogol ydyw dwyn dynion i'r cyflwr dedwydd hwn—i garu Duw a daioni, ac i ymofyn ein gwynfyd ein hunain yn nedwyddwch eraill; ac mai dyma beth yw bod o'r un feddwl, o'r un anian, a'r un ymarweddiad â Christ. Nid oes ddim damnedigaeth—nis gall fod—i'r neb sydd o'r un anian a'r un garacter a'r Iesu.

Ond y mae yn anhawdd cael dau Drindodwr i roddi yr un esboniad o'r peth y maent yn ddeall wrth athrawiaeth y Drindod. Nid ydyw i'm pwrpas presenol, i sylwi ar yr amrywiaeth y sydd o dybiadau am y Drindod. Y mae'n ddigon i sylwi, os oes dim ystyr a meddwl ynddynt, eu bod oll yn cytuno yn hyn; sef, eu bod yn gwrthwynebu *Undod* Duw. Os nad ydynt am wrthwynebu y gredo syml, mai un Duw sydd, a hwnw yn Dad anfeidrol ddoeth a daionus, paham yn enw cysondeb, a pha ddiben, yr holl wawdio a'r erlid ar Undodiaid? A oes unrhyw gwibl neu dwyll-ymresymiad yn hyn yma? Ystyried a barned y darllenydd diduedd, ai nid fel yma y mae'r peth yn bod mewn gwirionedd. Nid ewyllysiwn, ar un cyfrif, wneuthur cam â'm brodyr Trindodaidd; ond taer-alwaf arnynt i ddwys-ystyried pa beth y maent yn ei gylch, pan yn ceisio gwrthwynebu neu fychanu yr athrawiaeth syml o Undod Duw. Ai tybied fod y gwrthwynebiad yn arwain, yn y mesur lleiaf, i weithredoedd da? Dalier sylw etto, ei bod yn *fact* bod yr Athanasiaid a Thrindodwyr eraill, os nad yn credu mewn Tri-duw, o leiaf yn proffesu credu mewn rhyw beth sydd groes neu wahanol i'r athrawiaeth, mai "Un Duw sydd" a hwnw yn "Dad." O, frodyr, ai nid "drwg" yr ydych yn ei wneuthur felly? Ai nid "gadael ffynnon y dyfroedd byw, a chloddio i chwi eich hunain bydewau, y rhai ni ddaliant ddwfr?" A phaham y gwnewch felly? Ai er mwyn cysondeb ffydd? Nage, a bod yn sicr. Yr ydych yn gorfod cyfaddef fod eich athrawiaeth chwi, yn ol barn rheswm, yn *anghyson* â hi ei hun. Nid ychwaith er mwyn cael neu roddi *mwy o oleuni;* canys, meddwch chwi, dirgelwch anamgyffredadwy yw y Drindod. Ac hefyd, ni ellwch ddywedyd fod geiriad eich athrawiaeth yn *fwy ysgrythyrol*, nac yn wir *oll* yn ysgrythyrol. Braidd y mae eisieu sylwi mai iaith gwbl ddieithr i'r ysgrythyr, yw dywedyd fod "y Tad yn holl-alluog, y Mab yn holl-alluog, a'r Ysprvd Glân yn holl-alluog; etto, nad ydynt dri holl-alluogion, eithr un holl-alluog;" neu fel y dywaid yr Ymneillduwyr Trindodaidd, fod "tri pherson dwyfol, Tad, Mab, ac Ysprvd, a dim ond un Duw;" ond iaith eglur a phendant yr Ysgrythyr ydyw, mai "Un Duw sydd, y Tad; ac nad oes arall ond efe"—Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, a Duw a Thad pawb oll."

Y mae hyn yn ein harwain yn ôl i'r cwestiwn sydd mewn llaw A ydyw amddiffynwyr y Drindod yn proffesu ei bod yn arwain i weithredoedd da? Os na cheisiant ei hamddiffyn ar y tir hwn, nis gwn i pa dir sydd ganddynt i sefyll arno. Braidd y meddyliaf y bydd neb mor fyrbwyll a chynnyg dangos, fod credu mewn tri pherson dwyfol yn fwy effeithiol i weithredoedd da, na credu mewn un Bod dwyfol. O'r tu arall, yr wyf yn credu mai gorchwyl hawdd fyddai dangos, er boddlonrwydd i bob dyn ystyriol a diduedd, fod credu mewn "Un Duw, y Tad," yn ffynnonell pob gwir gysur, diddanwch a rhinwedd. Pwy all ddangos lai na'i bod felly? Ac os felly, onid ymddengys yn amlwg fod gwrthod neu ammau y gwirionedd mawr hwn; a'i fychanu neu ei dywyllu mewn un modd, yn ymddifadu dynion o'r cysur a'r adeiladaeth sydd yn tarddu oddiwrtho?

Y mae cysur ac adeiladaeth yn nghlwm a'u gilydd yn y peth ymâ; ac nid oes gweithred dda ond yr hon y byddom yn cael ein cysur neu ein gwynfyd *yn* ac *o'i* chyflawni. Y mae'r Proffwyd Micah, debygwn i, yn dysgu hyn yn eglur. "Dangosodd Duw it' ddyn, *beth sydd* DDA. A pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw?"

Ni fydd neb mor afresymol â haeru y byddai ein cysur a'n hyder yn fwy diymmod, a'n cyflwr yn fwy diogel dan nawdd *tri* pherson dwyfol, a phob un o honynt yn holl-alluog, nag y mae dan ofal a thywysiad *un* Tad Hollalluog. I'r gwrthwyneb, y mae yn ymddangos yn ganlyniad naturiol, i fod colli golwg ar Wrthrych mawr ein addoliad a'n gorfoledd—YR UN Duw perffaith ddaionus—yn golled o'r mwyaf; ac mor belled ag y byddom yn colli yr olwg arno, ei fod yn niwed o'r mwyaf i'n cysur a'n adeiladaeth grefyddol. Gyda phob parch dyledus y cynnygiaf y sylw yma i ystyriaeth fy mrodyr Trindodaidd.

Y mae dysgeidiaeth ein Harglwydd Iesu Grist, hefyd, ar y pen hwn, yn eglur ac yn bendant. Dywedodd ef, fod gorchymynion y Nef—gweithredoedd da—yn gynnwysedig mewn *caru Duw a'n holl galon, a charu ein cymydog fel ni ein hunain.* Yn awr a feiddia neb ddywedyd ei fod yn hawddach neu yn amgenach peth, i *rannu* yr holl galon rhwng *tri*—Tad, Mab, ac Ysbryd, na ei rhoddi yn *aberth cyfan* i'r *Un* Tad Anfeidrol? Yr wyf yn tybied *na.* Ac yn sicr, nid oes dim a'n cylyma ni mewn brawdoldeb a chariad at ein cymydog, yn gyffelyb i'r gred mai plant ydym i'r un Tad, gwrthddrychau yr un trugaredd, ac etifeddion yr un gobaith.

Y mae athrawiaeth y Drindod, yn ei chanlyniadau, os nad ydwyf yn camsynied, yn torri y cwlwm gwerthfawr hwn. Fe wyddys fod Trindodwyr yn gyffredin yn dal pechod a damnedigaeth naturiol, etholedigaeth a gwrthodedigaeth, a phoenau diddiwedd. Gweler y canlyniad o golli golwg ar yr unig Dduw, yr hwn sydd yn Fod o berffaith gariad. Pa annogaeth fyddai genyf, i wneuthur daioni i'r sawl y byddwn yn gwybod neu yn ammau nad oedd Duw yn ewyllysio yn dda iddynt? A ddisgwylid i mi fod yn well na Duw?

Nid wyf fi yn un o'r nifer hwnw o ddarllenwyr yr *Ymofynydd* ag y dywed eich gohebydd "Lleyg" yn eich Rhifyn diweddaf am danynt, ei fod ef yn tybied nad ydynt oll wedi darllen Credo Saint Athanasius drwyddi. Mi a'i darllenais lawer o weithiau; ac heb deimlo na chael un lleshad oddiwrthi, heblaw canfod, gyda gofid calon, i ba ddyfnder o amryfusedd y mae'r corff mawr o broffeswyr Cristnogol wedi syrthio iddo. Nid wyf yn barnu oddiwrth ei anadl fod "Lleyg" yn ystyried y ceid un lleshad arall o'i darllen. Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar i ragluniaeth, am na chefais fy nwyn i fynu fel y mae miloedd yn cael eu dwyn i fynu i'w hadrodd o flaen Duw, mewn addoliad cyhoeddus. Y mae cymaint o ned y bwystfil ar y gredo hon, ag sydd ar ddim a ymddangosodd etto ar y ddaear. Nis gwnaeth ac nis gallai wneud da i neb erioed; ond y mae wedi gwneuthur niwed mawr i filoedd ar filoedd. Y mae yn dechreu gyda'r weithred fileinig, o gyhoeddi (o flaen Duw—ond nid Duw'r cariad) colledigaeth dragwyddol uwch ben pob dyn na chwbl gredo ei haeriadau gwrthun ac anysgrythyrol. Ni fyddai ond gwatwor i geisio tynnu oddiwrth un rhan o honi, un annogaeth i weithredoedd da. Etto cofier, mai hon yw prif golofn athrawiaeth y Drindod. Hi a saif tra y safo Pabyddiaeth—a dim yn mhellach.

Nid yw ein brodyr Ymneillduedig yn mabwsiadu Credo Saint Athanasius; ond y maent yn cyhoeddi yn groyw ddigon, fod credu mewn Trindod yn anhebgorol i iechydwriaeth; ac oddiwrth hyny, gellid casglu eu bod hwy yn tybied fod yr athrawiaeth, mewn rhyw fodd neu gilydd, yn arwain i weithredoedd da. Y mae rhai dynion craffus a deallgar yn eu plith; ond nis gallaf lai na rhyfeddu am eu *logic,* os ydynt yn tybied fod y cysylltiad

lleiaf rhwng credu yr athrawiaeth â gweithredoedd da. Barned y darllenydd. Fel hyn, onite, y byddid yn ymresymu? "Dirgelwch mawr yw y Drindod; am hyny, byddwch sobr a didwyll, a charwch bawb eu gilydd. Gochelwch ddywedyd celwydd na gwneuthur cam â neb; eithr ymrowch, a'ch holl egni, i weinyddu er lleshad pawb o fewn eich cyrhaedd; canys y mae tri pherson yn yr hanfod dwyfol, sef, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, a phob un yn ogyfuwch a'i gilydd."—ac felly yn y blaen.

Yn awr, a welir yma fod rhyw berthynas—y berthynas leiaf—rhwng credu Trindod ac annogaeth i weithredoedd da? Dim. Os nad wyf yn camsynied, fe addefa Trindodwyr pwyllog, *nad oes dim*, a chymeryd yr athrawiaeth ar ei phen ei hun. Nad ydyw yr athrawiaeth ryfedd ddim ond math o scaffald i ddal i fynu athrawiaethau eraill y gyfundraeth union-gred.

Rhaid i mi gadw o fewn terfynau, rhag ofn blino amynedd y darllenwyr. Am hyny maddeuer i mi os gwelir fy mod wedi peidio sylwi ar rai pethau perthynol i'r pwngc. Ond gobeithiaf mai nid hwn fydd y cyfleustra diweddaf. Teilynga'r cwestiwn sylw ac ymchwiliad pellach.

Cyn terfynu, gadawer i mi gymeryd cip-olwg ar yr hanes eglwysig mewn perthynas â'r pwngc mewn llaw. Ni chaf ddwyn ymlaen ond un neu ddau esiampl o lawer o amgylchiadau cyffelyb—dim ond un neu ddwy dorch o'r gadwyn Drindodaidd yr hon sydd am oesoedd wedi cadw eneidiau'r Cristnogion mewn caethiwed dirgelwch.

Y mae y rhai hyny o'ch darllenwyr sydd yn gyfarwydd â'r hanes eglwysig, yn gwybod yn ddigon da am yr ymryson a'r erlid a fu yn amser Cystenyn Fawr a'i olyniedyddion, rhwng yr Homo-ousiaid, a'r Homo*i*-ousiaid. Y blaenaf a ddalient fod Crist yn homo-ousion, neu o'r *un* hanfod a'r Tad; yr olaf, mai homo*i*-ousion ydoedd ef, neu o *gyffelyb* hanfod. Yr amser hyn y dygwyd allan athrawiaeth y Drindod i'r perfeithrwydd (os perfeithrwydd hefyd y fath gabidwl) fel ei gwelir yn Nghredo Saint Athanasius. Yr oedd Athanasius ei hun, cofier, yn cydnabod na ddarfu yr Apostolion bregethu yr athrawiaeth; a hyny, rhag ofn tramgwyddo yr Iuddewon yn hollol, trwy roddi'r celwydd noeth i grefydd Moses a'r Hen Destament. Y mae yn debyg fod y *spectol* Blatonaidd, heb yr hon ni fuasai gwiw gan ysgolheigion Alexandria ddarllen y Testament Newydd na dim arall, yn eu galluogi (tybient hwy) i ganfod yno berthynasau a gwahaniaethau cywraint na feddyliodd y prif Gristnogion ddim am danynt.

Druain a'r prif Gristnogion! Nid oeddent hwy wedi eu haddysgu yn athroniaeth Plato. Yr oeddent yn ymfoddloni ar gymeryd dadganiadau eglur a phendant yr Ysgrythyr, yn sail eu gobaith, a rhéol eu ffydd a'u hymarweddiad. Ni wyddent hwy am ddim ag oedd gymaint o werth ag ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da. Yr oedd athrawiaeth Crist am dadoldeb Duw, ac addewidion ei ràs a gobaith anfarwoldeb, wedi cymeryd cymaint o feddiant o'u meddwl a'u calon, fel nad oedd hamdden ganddynt na blâs at ymchwiliadau cywraint philosophi; yr hyn a ddaeth modd bynag i fod yn brif ddifyrwch eu holyniedyddion mwy dysgedig o'r drydedd a'r pedwaredd ganrif. Druain a'r Cristnogion cyntaf! Digon oedd iddynt hwy fel yr oedd i Pedr yr Apostol, yn sail eu ffydd yn Nghrist a'u hymlyniad wrtho—mai ganddo ef oedd "geiriau y bywyd tragwyddol," heb wybod dim am yr angenrheidrwydd, a welwyd tebyg ar ôl llaw, o gredu fod dwy natur yn ei berson ef. Ac ymfoddlonent i garu Duw a'i wasanaethu, heb wybod, na theimlo eisieu gwybod dim am amrywiaethau dirgel ei hanfod anchwiliadwy.

Nid oes le i amman ddarfod i'r troedigion o blith y Philosophyddion Paganaidd, i fesur helaeth, impio eu dychymygion blaenorol ar y winwydden o blanniad Duw. Pa mor bell y llwyddwyd yn hyny fel ag i roddi argraff barhâus ar broffes gyhoeddus yr Eglwys, a ddangosir yn amlwg ddim ond cydmaru a chyferbynu syniadau a geiriadau credo Saint Athanasius â geiriau syml y Testament Newydd. Gofynai y syniadau newydd a dicithr, i gael eu gwisgo mewn geiriau newydd a phriodol iddynt eu hunain.

Bu'r dadleu a'r ymfrwydro a fu ynghylch homo-ousion a homoi-ousion, yn cadw y byd Cristnogol mewn cynhwrf am hir flynyddau, er mawr niwed i grefydd a rhwystr i bob teimladau a gweithredoedd da. O'r diwedd, ond megis o braidd, digwyddodd i blaid yr homo-ousiaid gael y law drechaf, trwy awdurdod a dylanwad y llŷs Ymherodrol. Llwyddwyd i sefydlu system Athanasius ac i chwanegu awdurdod eglwys Rhufain ar yr un pryd. Ar gefn y Drindodiaeth newydd y llwyddodd yr eglwys honno i ddringo i fynu i uchelder ei rhwysg. Ond wedi unwaith gael y fflangell i'w llaw, bu hi yn ofalus ac yn gyfrwys i beidio colli ei mantais; ac o'r amser hyny hyd yn awr, y mae eglwys Rhufain, yn ei llywodraethyddiaeth, wedi dangos mwy o awydd at draws-awdurdod nag at weithredoedd da—mwy o gyfrwystra y sarff nag o ddiniweidrwydd y golommen.

Un o'r castiau mwyaf milcinig a gyflawnid gan esgobion ac offeiriaid Rhufain ydoedd, ceisio cunill Paganiaid i fod yn offerynau i gospi a darostwng Hereticiaid. Am gwyd y Saeson Paganaidd ganddynt i flino a gorthrymu ein hynafiaid, er mwyn eu darostwng i ffydd Rhufain. Gwnawd yr un peth a'n cyd-genedl, Cristnogion Llydaw. A digwyddodd yr un modd i'r Burgundiaid a chenhedloedd hereticaidd eraill ynghylch yr un amser.

Mi gaf adrodd pa fodd y digwyddodd i hereticiaid Burgundy, yn ngeiriau yr hanesydd Thierry (*History of Norman Conquest.* B. 1. A. D. 500.) Dichon bod yr amgylchiad gydag eraill o'r un fath, yn llai adnabyddus i'ch darllenwyr nag y dylai fod. Caniataer i mi ragnodi, mai cenedl Gothaidd oedd y Burgundiaid, pa rai a gymerasant feddiant o'r dalaith ddeau-ddwyreiniol o Ffrainge, ar ddad-gysylltiad yr Ymerodraeth Rufeinig. Ar ddechreu y bummed ganrif, yr oeddent wedi ymsefydlu ac yn trigo yno yn dawel bellach, pan y daeth Clovis a'r Ffrangeiaid i gymeryd meddiant o'r ran ogleddol o Ffrainge. Llwyddasai cennadon eglwys Rhufain i cunill y Brenin Clovis, i broffesu Cristnogrwydd yn unol â'r ffydd Athanasiaidd. Ac ni ddangosodd ei llŷs a'i fyddin un anewyllysgarwch i ddilyn ei esiampl. Ond pa un a'u hennill a wnaed i *weithredoedd da*, barned y darllenydd oddiwrth yr adroddiad canlynol.

"Y Burgundiaid," medd Thierry, "oeddent Ariaid; hyny yw, nid oeddent yn credu fod yr ail berson o'r Drindod yn Dduw fel y cyntaf; ond er hyn o wahaniaeth mewn athrawiaeth, ni ddarfu iddynt mewn un modd erlid yr offeiriaid a'r esgobion hyny, ag oeddent yn eu trefi, yn proffesu daliadau Rhufain. Yr esgobion, heb fawr diolch am hyn o oddefiad hael, a ddaliasant ohebiaeth gyfrinachol gyda'r Frangeiaid, gyda golwg i'w hannog i gyrchu rhyfel yn erbyn y Burgundiaid; neu o leiaf cymerasant fantais o'r ofn a deimlid rhag y fath ruthrgyrch, i berswadio'r Brenin i gofleidio y credo Rufeinig, yr hon y gwelent hwy yn dda i'w galw, yr unig ffydd wirioneddol, efangylaidd ac union-gred. Darfu y Brenin yma, enw yr hwn oedd Gundebald, er yn farbariad ac yn arglwydd arnynt, eu gwrthsefyll gydag addfwynder mawr, tra yr oeddent hwy yn ei gyfarch ef gydâ bygythion a

balchder ffromllyd, gan ei alw yn wallgof-ddyn, yn wrthgiliwr ac yn wrthryfelwr yn erbyn cyfraith Duw. 'Na,' attebai yntau yn amyneddgar, 'nid felly y mae yn bod; yr wyf fi yn ufyddhau i gyfraith Duw; ond nis gwnaf, fel chwi, gredu mewn tri o dduwiau. Heblaw, os eich ffydd chwi yw yr un oreu, paham na wna eich brodyr yn y ffydd ddangos hyny, trwy attal Brenin y Ffrangciaid rhag cyrchu rhyfel i'n herbyn i'n dinystrio?"

"Yr unig atteb i ofyniad ac appêl Gundebald, oedd rhuthriad y Frangciaid ar draws y wlad, gan ladd, a llosgi, ac yspeilio y ffordd y cerddent. Gorfu ar Frenin y Burgundiaid ymostwng a thalu teyrnged, a'r Frangciaid a ddychwelasant i'w tiroedd y tu gogledd i'r *Loire*, gydag yspail mawr. Yr offeiriaid union-gred a alwent yr ymgyrchiad gwaedlyd hwn, yn 'anturiaeth dduwiol, ogoneddus a sanctaidd, o blaid y wir ffydd.' *'Och,' ebe'r hen Frenin gorchfyged'g, 'pa fodd y gall y wir ffydd drigo gyda'r sawl a chwenychant feddiant eraill, ac a sychedant am waed dynion?'"

Fel hyn cafodd Gundebald a'r Burgundiaid wybod trwy brofiad tost, nad oedd credu mewn Trindod o bersonau dwyfol, yn arwain i weithredoedd da.

PHILALETHES.

SYLWAD YCHWANEGOL AR 1 TIM. iii. 16.

MR. YMOFYNYDD,—Os gallwch hebgor congl fechan o'ch cyhoeddiad imi gywiro un coll o bwys yn fy ysgrif ar 1 Tim. iii. 16, gwnewch gymwynas i mi.

Yn Rhifyn Tach. 1851, cyfieithais y Syriac ar yr adnod uchod fel hyn: "Ac yn wir mawr yw dirgelwch cyfiawnder a *ymddangosodd* yn y cnawd *(dethgèli)*." Y mae yn rhyfedd genyf yn awr pa fodd y darfu i'r camsynied i ddigwydd; ond digwydd a wnaeth, a chyfiawn ei wella. Ystyr y gair *geli* yn Gutbirii Lex. Syriac, yw *revelavit*, datguddiodd, Hithp. *ethgeli*, datguddiwyd." Felly y cyfieithad ddylaswn roddi yw hwn, "Ac yn wir mawr yw dirgelwch cyfiawnder a ddatguddiwyd yn, neu trwy y cnawd." Ymddangos, yw dangos ei hun, yr hwn nid yw, i'm tyb i, yn gyfieithad cywir o'r Groeg *ephanerothe*, ac yn sicr nad yw yn gyfieithad iawn o'r Syriac *ethgèli*. Yn ol y cyfieithad diweddaf, ymddengys yn dra eglur mai dirgelwch yw'r *antecedent* i'r *relative* A. Y mae datguddio dirgelwch yn iaith synwyrol, ond nid mor gymwys yw dywedyd, datguddio person.

Ydwyf, &c., BASANISTES.

LLOFFYN ETTO, O WAITH DR. A. CLARKE.

"NID yw dywedyd fod *cyfiawnder personol* Crist yn cael ei gyfrif i ni, yn ysgrythyrol; nid yw dywedyd iddo gyflawni pob cyfiawnder drosom, neu yn ein lle, os wrth hyn y meddylir ei gyflawniad o'r holl ddyledswyddau moesol, ddim yn ysgrythyrol nac yn wir—iddo farw yn ein lle, sydd wirionedd mawr, gogoneddus, ac ysgrythyrol; nad oes prynedigaeth ond trwy ei waed ef a haerir tuhwnt i ddadl yn oraclau Duw. Ond y mae lluosogrwydd o ddyledswyddau a ofynir gan y ddeddf foesol y rhai ni ddarfu i Grist erioed gyflawni yn ein lle, ac nis gallasai fyth. Y mae gennym lawer o ddyledswyddau teuluaidd, y rhai a berthynant i ni ein hunain yn unig, yn y berthynas o *rieni*, *gwyr*, *gwragedd*, *gweision*, *&c.*, yn y cyfryw berthynasau ni ddarfu i Grist erioed sefyll. Ni ddarfu iddo gyflawni yr un o'r dyledswyddau hyn yn ein lle."—*Dr. Adam Clarke's Com.*, *Rom.* iv. 25, *Remark* 5. B.

---

*Non est fides ubi est appetentia alieni, et sitis sanguinis populorum.—*Apud Script. rer Gal. &c.*

LLYMMA DRIOEDD CERDD.

A DYNNWYD I MAES O'R HEN LYFRAU BARDDONIAETH, AC YNDDYNT Y MAE LLAWER O DDYSG, AG ATHRAWIAETH, A BARN, AR GERDD A BARDDONIAETH.

1. Tri pheth a wnant brydydd : awen, gwybodaeth, a chynhyrfiad.
2. Tair cynneddf awen : hardd feddwl, priodol feddwl, ac amrywedd feddwl.
3. Tri Chyfeillion awen : nwyf, callineb, a digrifwch.
4. Tair effaith awen : haelioni, gwarineb, a charedigrwydd.
5. Tri anhepcor awen : deall, ystyriaeth, ag amynedd.
6. Tri pheth a gynnydd awen : ei hiawn arfer, ei mynych arfer, a llwyddiant o'i harfer.
7. Tair diben prydyddiaeth : cynnydd daioni, cynnydd deall, a chynnydd diddanwch.
8. Tair dyledswydd bardd : iawn ganu, iawn ddysgu, ag iawn farnu.
9. Tri deunyddion cerdd dafod : iaith, crebwyll, a chelfyddyd.
10. Tri anhepcor iaith : purdeb, amledd, ag hyweddiant.
11. Tair ffordd ydd amlhëir iaith : amrafaelu geiriau cyfystyr, amryfodd gylmeiriau, ac amrywddull ymadrodd.
12. Tair cynneddf purdeb ar iaith : prif ansodd, prif arfer, a phrif ddeunydd.
13. Tair cainge hyweddiant iaith : a ddeëllir, a hoffir, ag a gredir.
14. Tair colofn synwyr : eglurdeb, llawnder, a chyfiawnder.
15. Tair colofn eglurdeb : y gair a fo raid, y maint a fo raid, a'r ddull a fo raid.
16. Tair colofn llawnder : priodol feddwl, aml feddwl, ac amgen feddwl.
17. Tair cynneddf cyfiawn fyfyrdod : a ddichon fod, a ddylai fod, ag y sydd hardd ei fod.
18. Tair cynrann celfyddyd : anian, lles, a phriodoldeb.
19. Tri chynnod anian a hanfod : lle nis gellir gwell, lle ni ellir amgen, a'r lle nid rhaid amgen.
20. Tri chynnod lles celfyddyd : ei hoffi gann y byd, ei rhinwedd yn gwellhau'r byd, a'i pherffeithgamp yn cynnal ei hun.
21. Tri nod priodoldeb celfyddyd : iawn achos, iawn ymdrefn, ag iawn gyfuniad.
22. Tri amser celfyddyd : pan fo iawn, pan fo hardd, a phan fo rhaid.
23. Tair hyweddiant celfyddyd : ar a'i hoffo, ar a'i deallo, ag ar a'i dirper.
24. Tri harddwch cerdd : mawl heb druth, nwyf heb anlladrwydd, a dychan heb serthyd.
25. Tri anhepcor cerdd : awenbwyll, celfyddbwyll, a gwirionedd.
26. Tri theccad cerdd : hardd grebwyll, hardd berthynas, a hardd gywreingamp ar fydryddu.
27. Tair sail awen : rhodd Duw, ymgais dyn, a damwain bywyd.
28. Tripheth a ffrwythlona'r awen : diddanwch meddwl, coledd daionus feddwl, a phorthi cof.
29. Tripheth a ddephorthant gof : ymgais a gwraidd gwybodau, cyfiawnder gwybodau, a'r achos cofio gwybodau, parth y rhaid wrthynt.
30. Tripheth a dderchaif awen : dysg, ymgais, a pharch.
31. Tri ardderchogrwydd cerdd : godidog iaith, godidog ystyr, a godidog grebwyll.—*Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain.*

(I'w barhau).

(Parhad o tudal 122).

CEIRCH.

[*Oats.—Avena*].

Ydynt ronynau digon adnabyddus, yn fwy fel lluniaeth na meddyginiaeth. Y mae ceirch yn cynnwys maeth hydraul mewn cryn gyflawnder.

Twym, wedi ei wneud o flawd ceirch a dwfr, sydd faethlon a phriodol iawn i gleifion, yn enwedig os byddant yn dyoddef oddiwrth fflamegau, mewn rhyw ran o'r corph; neu oddiwrth beswch, crugni a gerwinder y llwngc a'r awyrbibau. Oddi wrth hir ddefnyddio bara o flawd ceirch, fodd bynnag, poethir y gwaed, a gwyon ereill y corph yn ormodol—yr hyn a bair groendarddiant.

Defnyddia trigolion ucheldir yr Alban beilliaid ceirch fel eu prif ymborth; o'r herwydd y maent yn fwy darostyngedig i'r ymgrafu nac un genedl—am hyny, gelwir y clefyd hwnw mewn ffordd o ddigrifwch yn grwth yr Albaniaid *(Scotch Fiddle)*.

CELYN.

[*Holly*].

Mae y prysgwydd bythwyrddion hyn yn dra adnabyddus i bawb. Rhoddant yr hen feddygon glod mawr i'r ffrwythau a dyf ar y celyn, rhag y rhefrwst gwyntog.

Dywedir fod rhisg y gelynen wedi ei ferwi mewn dwfr a gwinegr, yn dda i olchi a mwydo aelodau ysigedig, a chymmalau wedi eu gyru o'u lle.

O risg y gelynen y gwna adarwyr eu hadarlŷd, darparant ef fel y canlyn:—Rhoddir y rhisg i ferwi am ysbaid mewn dwfr, a chleddir ef mewn daear am o wythnos i naw diwrnod; yna golchir ef yn lan mewn dwfr rhedegog, gan gymmeryd ymaith y bilen allanol; yn olaf, pwyir ef nes ei wneud yn adarlŷd (*bird-lime*). Yr adarwyr a osodant y glŷd hwn ar frigau ysgall neu lysiau ereill yn cynnyrchu hadau a hoffa adar; a phan ddisgynont, y glŷd a gydia yn eu traed a'u hadenydd mor sicr, fel na allant, mewn modd yn y byd, ehedeg ymaith,

CELYN MAIR.

[*Kneeholly or Butcher's Broom—Ruscus*]

Gelwir ef gan rai, ysgybell y cigydd; planhigyn bychan tra phigog ydyw, yn hoffi y wig a'r perthi cysgodol i dyfu, ond a blenir yn aml mewn gerddi.

Mae i'r gwreiddau flas melus pan roddir darn o honynt gyntaf yn y genau ond newidia yn fuan i flas chwerw. Cyfrifir ef yn mysg y pum' gwraidd rhyfeddol.

Trwyth neu ddyferwad o'r gwreiddiau a egyr y colyddion yn dirion, a thuedda i agor attalfeydd, arllwys gwyon niweidiol o'r cylchrediad, a phuro y gwaed.

CLOR.

[*Earth Nuts.—Bulbocastanum*].

Clôr neu gnau'r ddaear, sydd adnabyddus i bob plentyn, bron. Mae i'r gwraidd flas peraidd a dymunol, nid annhebyg ei flas i beilliaid ceirch newydd ei falu.

Mae Culpepper yn honi fod had y llysieuyn hwn yn ddwfrberai rhagorol, a bod y gwraidd o'r un duedd eithr yn wanach. Dywedir fod y gwreiddiau wedi eu sychu a'u malurio yn bylor, a'i wneud yn gyflaeth, yn feddyginiaeth effeithiol i iachau clwyfau yn y bledren, yr arenau neu y dwfrbibau; pan fyddo y dyoddefydd yn gwaredu gwaed gyda'i ddwfr, y moddion hyn, meddir, a'i iacha.

Ai nid tebyg y gallai fod o wasanaeth yn nghlefyd y gwaed?

CLUST YR ARTH.

[*Sanicle—Sanicula.*]

Yr Olcheuraid—Yr Olchwraidd, gwahanol enwau ar yr un llysieuyn, yr hwn a hoffa dyfu yn wyllt mewn coedydd a pherthi cysgodol, ac a flodeua yn Mai.

Y dail ydyut yn ranedig i bump neu chwech o ddarnau, a rhai o'r darnau hyny wedi eu hadranu yn gyffelyb i Droed-y-Fran, a'u hymylau wedi eu mânfylchu, o liw gwyrdd tywyll a disglaer, yn tueddu i'r coch ger yr ymylau, ac yn dra llyfnion eu harwyneb; tyfant ar gorsenau llwyd-wyrddion. Yn mhlith y cyrs gweinion a bychain o liw gwyrdd, y rhai a ymganghenant tua'r blaen yn amryw fan golfau, ac yn eu cyswllt y tyf dalen ranedig i dri neu bedwar darn, lle tyf y blodau allan o benau melynwyrdd bychain; yn mha rai y tyf yr hadau, y rhai a feddant adfachau cyffelyb i Lau'r-ffeiriaid. Y blodau ydynt wynion.

Y gwreiddyn a gyfansoddir o amryw fan edafedd, y rhai a gydgyfarfyddant yn dwmpath praffus, a thyf dail arno trwy y gauaf. Y mae i'r dail flas llysieuaidd, garw ac adsur.

Canmolai hen feddygon y llysieuyn hwn yn fawr at wellhau clwyfau mewnol ac allanol; defnyddient ddyferwad cryf at glwyfau a doluriau mewnol, a'r sudd at rai allanol: honent nad oedd ei well at ddolur genau, ac at leddfu fflameg neu enyniad yn y gwddf neu'r ysgyfaint. Modd bynag, rhaid rhoddi prawf iddo cyn gellir dweyd dim yn benderfynol am dano; gan fod ymarferwyr diweddar yn ei gwbl ddirmygu.

CLUST-YR-ASEN.

[*Liver-wort.—Lichen.*]

Ei enwau ereill ydynt Cynglenydd-yr afon, y Llefanog, Llinwydd-yr-afon, Llysiau'r-afu. Tyfant yn ddail bylchog a bychain yn nglyn a'u gilydd, gan ymdaenu hyd llenydd yr afonydd, ar greigleoedd, a llefydd cysgodol a lleithion; o blith y dail y tyf cyrs gweinion a bychain o fodfedd i ddwy o hyd; ac ar flaen pob un yr egyr blodeuyn ar ddull seren.

Y gwraidd sydd fan a theg. Y mae iddo arogl gwanaidd heb fod yn annymunol; gydag archwaeth llysieulyd, garw, a lled chwerw. Tybid gynt fod llysiau'r-afu yn rhinweddol rhag anhwylderau yr afu; i'w hoeri a'i glanhau yn nghyd ag atal fflameg ynddi. Y mae rhai yn honi ei fod yn foddion rhagorol rhag y clefydmelyn, ereill a wadant fod i'r llysieuyn rinwedd yn y byd! A oes dim calon mewn rhywun i'w brofi?

Y mae rhywogaeth arall o'r llysieuyn hwn a enwir gan y Saeson—*the Ash-coloured Ground Liverwort (Lichen terrestris cinereus Raii)*; sef, llysiau'r-afu, lliw onen y ddaear. Mae hwn yn tyfu yn ddail bysog trwchus, yr wyneb uchaf iddynt yn wastad, a'r wyneb isaf o gyfansoddiad rhwydol, yn glynu wrth y ddaear gerfydd eu gwreiddau edafeddog. Y mae y dail, pan yn eu perffeithrwydd, o liw yr onen; pan heneiddiant, y maent yn tywyllu, ac weithiau y maent o liw cochlyd. Maent i'w cael ar fryniau grygiog a sefyllfaoedd sychion ac agored ereill; tyfant yn mhob tymmor o'r flwyddyn, eithr yn yr Hydref a'r Gauaf y maent lawnaf o rinwedd.

Dywedir eu bod yn ddwfr-berai twym; i'r archwaeth y maent yn hytrach yn ffiaidd. Bu iddynt glod dirfawr rhag effeithiau cnoad ci cynddeiriog, gan feddygon enwog iawn cyn hyn. Yn y *Philosophical Transactions*, rhif 237, cawsai pylor o'r llysieuyn hwn gydag ychydig o bypur-duon ei ddwyn i sylw meddygon ac ereill, fel meddyginiaeth anffaeledig rhag effeithiau tor-calonus cnoad ci cynddeiriog gan un o'r enw Mr. Dampier. Y dull o'i ddarparu a'i ddefnyddio, yn ol Doctor Mead, yr hwn a honai iddo ei arferyd i ragflaenu y gynddaredd, dros ddeng mlynedd ar hugain, i dros fil o bersonau, heb gael eu siomi ynddo gymmaint ag unwaith, sydd fel y canlyn:—

Cymmerer o lysiau'r-afu, lliw'r onen-y-ddaear, wedi ei glanhau a'i pylori, haner owns; pypur-duon, yn bylor, pedwaredd ran o owns; cymmysger hwynt, a rhaner y cwbl yn bedair dogn. Cymmerer un o'r dognau hyn mewn haner pint o laeth newydd ei odro, ar gylla gwag, am bedwar boreu olynol. Wedi cymmero y claf y dognau uchod, rhaid iddo ymfaddo mewn dwfr oer, megis ffynon neu afon bob boreu, pan fyddo y cylla yn wag, am fis. Gofynol iddo ymsuddo dros ei ben yn y dwfr; ond os bydd yr hîn yn oer, ni ddylai aros yn y bâdd gyda'i enau uwch y dwfr dros haner munud. Wedi hyny, rhaid i'r dyoddefydd ymfaddo, fel uchod, dair gwaith yn yr wythnos, am fythefnos yn ychwanegol. Mae yn ofynol gwaedu y dyoddefydd cyn y cymmero y moddion.

Dyna y feddyginiaeth yn ol cyfarwyddyd Dr. Mead. Ond ystyriwn yn ddyledswydd arnom i hysbysu y darllenydd, na chynghorem ef i ymddiried ynddi wrth ei *hun*, pan fyddo yn credu ei fod wedi ei gnoi gan gi cynddeiriog; eithr dylai arferyd moddion ereill yn gydfynedol. Er fod Dr. Mead yn feddyg galluog ac enwog iawn, etto ni ymddengys ei fod yn athronydd, gan y gwnelai ei ofergoelion, ffol yn fynych o hono.

CLUST-Y-LLYGODEN.

[*Mouse's-ear.—Auricula Muris.*]

Neu y Flwynog, sydd lysieuyn bychan yn ymlusgo hyd wyneb y graian, yn debyg i'r mefus yn llinynau; oddiwrth y rhai yr ymsaetha gwreiddiau bychain fel edafedd. Y dail ynt fychain a byrion, yn osodedig mewn ffurf crwn, yn dra

blewog, ac yn llawn o sudd gwyn a llaethog. O blith y twr dail y tyf cyrs llwydion a bychain oddeutu rhychwant o hyd gydag ychydig o ddail arnynt; ar eu blaenau yr egyr blodeuyn, cynnwysedig o amryw flodeu-ddail melynion gwelw, llydain tua'r blaen a bylchog, wedi en gosod yn dair rhes, yr amlaf yn uwchaf. Mae y blodeuyn oll yn debyg ddigon i eiddo *dant-y-llew;* mae ychydig gochni odditan y blodyn, yn enwedig pan dyfa mewn sefyllfa sych. Wedi aros am ryw ysbaid try y blodyn yn gnepyn cotwmog, ac wrth fon y gwlanblu hyn y sicrheir yr had; pan yn aeddfed chwythir y cyfan o flaen y gwynt. Felly y mae anian yn ei hau.

Tyf ar ddaear raianog, hyd ochrau y ffyrdd a'r cloddiau; a blodeua yn Mai a Mehefin. Mae y dail yn wyrddion trwy y gauaf

Mae i'r dail archwaeth lled boeth (*sub-acrid*) ac egrol; gellir casglu wrth hyn eu bod yn rhwymai. Gynt canmolid y llysieuyn hwn rhag y graianwst, y clefydmelyn, a phoenau coluddol. Isgell *(decoction)* wedi ei wneud o hwn a dant-y-llew lleiaf (*succory*) yn nghyd a'r genrigoch (*lesser centaury*) a ganmolid yn fawr fel moddion effeithiol i ragflaenu y dyfrglwyf ac at holl anhwylderau y ddueg. Ond yr hyn a *fu* a ddarfu.

Feallai yr esgeulusir ef, fel llawer o lysiau ereill, er rhoddi lle i'r mŵnau; eithr tebyccach mai y gyfundraeth lysieuol a ordeiniai y PERYDD yn feddyginiaeth rhag anhwylderau cyrff peirianol na'r un fŵnol. Mae y flaenaf yn feddianol ar ansodd digon effeithiol, i symmud ymaith bob anhwylderau a ddichon unrhyw feddyginiaeth wneud; ac yn llawer mwy tirion a chydweddol ag ansawdd peirianwaith y corff na'r olaf.

CNAU'R INDIA.

[*Nutmegs.—Nux Moschata.*]

A dyfant yn yr India Ddwyreiniol. Y mae dau sylwedd perthynol i'r ffrwythau hyn mewn ymarferiad mynych mewn coginiaeth yn gystal a meddyginiaeth; sef, y cnewyllyn a eilw y Saeson *nutmeg*, a'r bilen rwyd-dyllog a ddarnguddia fasgl y cnewyllyn, yr hwn a elwir *mace*. Mae i'r ffrwyth drydydd arwisg, sef, yr un allanol o gyfansoddiad tyner, yr hon pan yn aeddfed a ymegyr, er rhoddi ei chynnwysiad at eu rhyddid. Defnyddiwyd y ffrwythau hyn er ys oesoedd; ac ystyrir hwynt yn feddianol ar ansawdd dwym, peraroglus a thra hyfryd; maent felly yn hynod lesol i rai a feddant gylla egwan, oer, a gwyntog; a gwnant les yn fynych i rai yn dyoddef oddiwrth rhefrwst a achosir gan wynt, ond bod yn ofalus na byddo fflameg yn y coluddion.

Wrth ddistyllu y ffrwythau hyn gyda dwfr, ceir cryn fesur o olew, yn meddu archwaeth ac arogl, ac o ganlyniad, rinweddau y cyffyr yn dra chyflawn. Dyry cnau'r India hefyd fesur helaeth o olew wrth eu gwasgu mewn gwasg dwym. Mae'r olew hwn o liw melyn, ac yn bur deneu pan newydd ei wasgu allan; ond mewn byr amser caleda yn weren.

Wrth ddistyllu yr olew hwn gyda dwfr, ceir nawd olew, yn mhob peth yn gyffelyb i'r un a ddistyllir o'r ffrwythau eu hunain. Esmwytha diferyn neu ddau o'r olew hwn y ddanodd weithiau, wrth ei roddi ar belen fechan o gotwn yn y twll fyddo yn y dant. D.L.M.

AM DDIGOFAINT.—Cafodd y nwyd hon ei galw wrth yr enw o wallgofrwydd byroedlog, ac y mae yn farwol yn fynych trwy achosi rhediad gormodol o waed i'r pen, ac efelly yn achosi y parlys mud.

Y mae Digofaint, gan hyny, yn ol y gradd y byddo, yn annog gwahanol arwyddion gwrwstaidd a dirdynol,

Y mae yn amlwg bod tymer annogol yn achosi y nwyd hon, ac yn neillduol y rhai o dymerau mamwstaidd ac isel-ysbrydaidd, yn gystal a'r rhai o gyfansoddiad sych a hylym. Yn y blaenaf o'r amgylchiadau yma, pan fyddo y nwyd yn gymhedrol, y mae yn aml yn llesiol, trwy hwylysu y cylchrediad pan fyddo yn llesg; ond y mae ei hymosodiad ar y cyfansoddiadau ereill yn wastad yn beryglus, a dylid ymwrthod â phob peth a allai dueddu idd ei dwyn oddiamgylch. Ymborth teneu digynhyrfiad ydyw y goreu i'r fath bersonau.

Dylid ymwrthod â phob math o fwyd annogol, a pheidio cyfyngu ar gysgu. Dylai pang o ddigofaint gael ei drin megis clefyd ennynllyd.—(*Y Meddyg Teuluaidd.*)

Hancsion Cartrefol a Thramor.

DIGWYDDIADAU GALARUS MEWN GWEITHIAU GLO.

Bydd cof yn hir, gydâ cholled a galar trwm am ddigwyddiadau alaethus y mis diweddaf, gan weddwon ac amddifaid lawer yn Sir Gaer a Sir Forganwg yn enwedig. Y mae'n resyn i feddwl fod cynifer o ddynion yn gosod eu bywydau yn y perygl mwyaf, wrth geisio ennill modd i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Pontyberem.—Yn hwyr y 10fed dydd o Fai, ymddengys fod 27 o bobl yn gweithio fel arferol mewn pwll glo yn Pontyberem, wyth milldir o Gaerfyrddin. Yn ddisymwth torrodd y dwfr i mewn i'r pwll, a boddodd 26 o honynt. Achubodd y llall ei fywyd trwy neidio ar raff a dringo i fynu cyn i'r dwfr ei gyrraedd. Tafwyd yr holl bentref, fel y gellid disgwyl, i'r terfysg a'r galar mwyaf. Yr oedd y rhan fwyaf o'r dynion anffodus yn briod, a chanddynt deuluoedd lluosog. Meddylir i'r digwyddiad gael ei achosi trwy i'r dwfr dorri i mewn o hen byllau yn y gymydogaeth.

Tan-chwa ddychrynllyd yn Aberdâr—colli 67 o fywydau.—Ar yr un diwrnod, sef dydd Llun, y 10fed o Fai, digwyddodd tanchwa o'r mwyaf dychrynllyd a glywyd am dano yn ein gwlad, yn mhwll glo Dyffryn Ganol, ger Aberdâr; gwaith a ddygid yn mlaen gan T. Powell, Ysw. Yr oedd y bobl wedi myned at eu gwaith y bore hwnnw ar yr amser arferol, ac yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn hwylus hyd ychydig wedi naw o'r gloch, pryd, y deallwn, i'r pwll danio dair gwaith ar ol eu gilydd. Yr oedd swn y ffrwydiad, ysgwaethyroedd, yn rhy adnabyddus, a chreodd drallod ac arswyd mewn cannoedd o galonau. Yr oedd tadau a mamau, plant, brodyr a chwiorydd, o bob parth, i'w gweled yn prysuro tua genau'r pwll, oll yn wallgof braidd gan ofn a phryder a thrallod calon. Daeth goruchwylwyr pyllau eraill Mr. Powell, ynghyd a llawer o'r gymydogaeth yn fuan i'r lle; danfonwyd amryw ddynion gwrol i waelod y pwll, yr hwn sydd 190 llath o ddyfnder, ac yna gwelwyd helaethrwydd erchyll y trallod. Erbyn dau o'r gloch y prydnawn, yr oedd 28 o'r dioddefwyr annedwydd wedi cael eu dwyn i'r lan yn fyw, ond mewn cyflwr isel trwy fod cyhyd yn yr awyr afiach; yr oedd rhai o honynt wedi cael eu llosgi yn fawr, rhai eu breichiau, eraill eu cluniau, wedi eu dryllio. Yr oedd eraill yn ymddangos yn feirw pan eu dygwyd i'r lan; ond cawsant eu hadferu trwy ddefnyddio dwfr oer a'r moddion meddygol eraill. Erbyn 8 o'r gloch yr oedd 63 o gyrph meirw wedi eu codi. Ymddangosai fod y rhan fwyaf o honynt wedi mogi wrth effaith y dan-chwa. Yn ystod yr amser yr oeddynt yn cael eu codi o'r pwll, canfyddwyd, fel y gellir dychymyg, llawer olygfa dor-calonus. Deallwn fod y Treng-holiad (*Inquest*) heb ddyfod i'w phenderfyniad, pan yr ydym yn cof-nodi y digwyddiad galarus. Nis gwyddom hyd yma beth oedd yr achos o'r ddamchwaen. Y mae'n debyg fod arolygwr mwnau o gryn enwogrwydd wedi bod yn ymweled â'r gwaith y dydd Iau blaenorol, ac wedi amlygu boddlonrwydd am y dull yr oedd y gwaith yn cael ei ddwyn ymlaen; yr hyn sydd yn dangos fod rhyw ddiffyg ofnadwy yn rhyw le nad yw cyfraith y tir, ar y pen yma, wedi hyd yn hyn gyrhaeddyd atto. Y modd yma cafodd oddeutu 26 eu gadael yn weddwon, a thua 90 o blant eu gadael yn amddifaid. Y mae yn dda genym glywed fod Mr. Powell ar achlysuron o'r fath, yn cymeryd yr amddifaid a'r gweddwon dan ei ofal, ond, y mae'r trallod presenol mor helaeth, fel ag i alw am gynorthwy cyffredinol tuag at ei ysgafnhau.

Achosion digwyddiadau mewn gweithiau Glo.—Y mae gohebiaeth wedi bod yn cael ei gario ymlaen yn y *Times*, y dyddiau diweddaf, ynghylch prif achosion y fath ddigwyddiadau trychinebus ag yr ydym newydd eu cofnodi. Y mae Mr Edwards, cyfrifydd, *(accountant)* un o'r gweithiau glo mwyaf yn y Dehendir, yn cyfrif saith o bob deg o'r digwyddiadau i anofalwch y gweithwyr. Mae'n debyg fod cynefindra â pherygl yn lleihau yr ofn o hono. "Yn y mwn-gloddiau a gyfeiriwyf attynt," medd Mr. E., "rhoddid i bob gweithiwr *safety lamp*, ac y mae y rhai y gorchymynwyd hyny iddynt wedi dangos amharodrwydd i'w ddefnyddio, tra yr ydwyf wedi clywed lawer gwaith eu bod mor ddiofal ag i agor eu lampau yn yr agoriadau, ac felly i beryglu, nid eu bywydau eu hunain yn unig, ond bywydau pawb eraill ag oeddynt gyda hwynt dan y ddaear. Yr wyf yn gwbl o'r farn y gellid gochelyd saith o bob deg o'r digwyddiadau gydâ dim ond gofal priodol a rhesymol ar ran y gweithwyr. Gofal y meistri ydyw, i gadw diogelwch; a phe na bai teilyngaeth annogaeth, byddai eu hunan elw yn eu cymhell i wneuthur felly, o herwydd nas gall fod niwed i bersonau heb fod niwed cyfattebol i'r meddiant—ag o bosibl i gwbl attal y gwaith. Costiodd un digwyddiad o'r fath i'r perchenog, i'm gwybodaeth i, dros bum mil o bunnau, heblaw'r golled am nad oedd y gwaith yn cael ei gario ymlaen yn rheolaidd." Y mae Mr E. yn cynghori'r gweithwyr i ffurfio gwrth-

berygl gymdeithasau (*anti-danger clubs*), ac i yru ymaith yn union a chyda gwarth, bob mwnwr a droseddo y rheolau gosodedig. Y mae ysgrifenydd arall, Mr. Richardson, (*Civil Engineer*) o Gastellnedd, yn haeru yn bendant mai awyriad diffygiol y gweithiau yw y gwir achos o'r digwyddiadau cyfeiriedig, ac yn ganlynol, mai nid ar y gweithwyr y mae'r bai. Gyda golwg ar sylwad Mr. Edwards, y byddai hunan-elw y meistri yn eu cymhell i fofalu am ddiogelwch y gwaith a'r gweithwyr, braidd y mae eisiau sylwi, y byddai neu y dylai hunan-elw y gweithwyr i'w cymhell lawer a llawer mwy i fod yn ofalus, gan mai matter bywyd ac angau ydyw iddynt hwy.

Tanchwa drychinebus etto, yn Coppul, ger Chorley,—colli dros 30 o fywydau.—Y mae yn ddrwg iawn genym wrth fyned i'r wasg orfod hysbysu fod digwyddiad alaethus wedi cymeryd lle etto yn y gwaith glo, ger Chorley, yn swydd Lancaster, boreu dydd Iau, Mai 21. Ymddengys fod y swyddogion, y rhai y perthynai iddynt i ymweled a'r gwaith bob boreu, wedi canfod yno gronfa o *gas* niweidiol, ac iddynt rybuddio y gweithwyr rhag myned at eu gwaith yno, cyn symud y perygl Rhai gweithwyr, modd bynag, a aethant i'r pwll gydâ chanwyllau noeth; a'r canlyniad oedd, tanchwa echrydus, yr hon a laddodd 33 o ddynion! Gwelir ei bod yn angenrheidiol i edrych i mewn i'r pethau prysur yma, ymhellach nag a wnaed hyd yn hyn. Gobeithiwn y bydd i benderfyniadau y Trengholiad yn Aberdâr ac yn Chorley, i fod yn foddion er cael gwell trefn ar ddiogelwch mwnwyr mewn gweithiau glo.

Y CYFARFOD BLYNYDDOL YN RHYDYPARC.

Deisyfa Mr. Evans arnom i hysbysu, y bydd y Cyfarfod uchod i gymeryd lle ar y 23 a'r 24ain o Fehefin. Y cyfarfod dydd Mercher (y 23ain), i ddechreu am 6 o'r gloch prydnawn.—Boreu dydd Iau, am 10 o'r gloch.

COLEG CAERFYRDDIN.

Da genym weled fod y boneddigion canlynol—myfyrwyr yn ddiweddar yn Ngholeg Caerfyrddin—wedi ennill clod ac anrhydedd arbenig yn Mhrif Athrofa Glasgow. Ennillodd Mr. J. H. Jones y *tlws aur* (Gold Medal), am ragoriaeth yn y Groeg. Mr. W. Roberts, y tlws aur, am ragoriaeth yn y Lladin; a Mr. Ben. Williams, gamp-dlws, am ragoriaeth mewn Rhesymeg (*Logic*). Dyma glod i Gymru ac i Goleg Caerfyrddin hefyd.

Y SENEDD A'R WEINYDDIAETH.

Yn unol a chytundeb y pleidiau, nid oedd dim newydd o bwys i'w ddisgwyl oddiwrth weithrediadau y Senedd yn yr eisteddfod bresenol. Un o'r telerau ar ba rai y goddefid gweinyddiaeth Arglwydd Derby ydoedd, iddynt gadw yn unig at gario ymlaen achosion anhebcorol y deyrnas. Modd bynag darfu y mwyrifau a gawsant o blaid eu *Militia Bill*, grëu calon newydd ynddynt. Anturiasant ymyraeth â chwestiwn mor bwysig â'r bleidlais wladwriaethol, a chynnyg symud yr hawl i bleidleisio o Saint Albans, a Harwich, bwrdeis-drefi a gafwyd yn euog o lygredigaeth, drosodd i dyddynwyr Swydd Gaerefrog. Ond cawsant wybod fod y rhan fwyaf yn mhell o Dy'r Cyffredin yn erbyn iddynt gymeryd cymaint a hyny o orchwyl mewn llaw. Nid oedd y *Budget*, parth trefnu cyllid a threthi y wlad, yn wahanol i'r hyn a fuasai yn bod yn flaenorol. Ond darfu i Mr. D'Israeli, yn ei araith a'i sylwadau ar yr achlysur, ddangos ei fod yn deall beth oedd ganddo mewn llaw. Deallir nad ydyw golygiadau y Canghellwr talentog, ac y pen, yn rhoddi cwbl foddhâd i'r *Tories*. Ac y mae llawer o achwyn ar Arglwydd Derby a'i gyd-weinyddwyr, am eu bod yn ymddwyn gyda mwy o gallineb na thegwch, yn eu gwaith yn ceisio gosod eu hunain mewn sefyllfa ffafriol ger bron y wlad gyda golwg ar yr etholiad gyffredinol sydd wrth y drws.

Y mae Arglwydd J. Russell wedi annerch etholwyr Llundain, gan hysbysu ei benderfyniad i fod etto yn ymgeisydd am eu pleidlais; ac y mae yn addaw amryw ddiwygiadau o bwys, os bydd iddo gael ei ddwyn yn ol i awdurdod. Y mae yn fwy na thebyg y bydd y mesurau Seneddol a dybir yn angenrheidiol wedi eu gorphen, a'r Senedd wedi ei gollwng cyn y bydd yr ymofynydd nesaf i maes o'r wasg. Nid yw y mwyrifau gyda'r *Militia Bill* gymaint ag y buont. Pa un ai yr oes angen am ragor o filwyr arnom ai peidio, mae ymron yn sier nas ceir dynion i atteb y pwrpas trwy drefniadau y *Bill* hwn.

Y MAINOOTH GRANT.

Ni fu y gwrthwynebiad a wnaed i'r *Mainooth Grant* eleni yn llwyddianus. Nid oedd lle i ddisgwyl y byddai; serch bod haerllugrwydd y Pabyddion yn ddiweddar wedi bod yn dramgwyddus dros ben i Brotestaniaid y wlad. Mae'n wir nad yw'r swm yn fawr mewn cydmariaeth a llawer o symau y'n trethir ni i'w talu at achosion diraid a niweidiol. Nid yw hynny yn ddigon i gyfiawnhau'r peth, ac yn ol ein barn ni, nid cyfiawn trethu'r wlad at godi neu gynnal

gweinidogion i un blaid grefyddol yn fwy na'i gilydd. Nid hyn, modd bynag, oedd yr achos blaenaf, na'r gwir achos o'r gwrthwynebiad gyda'r rhan fwyaf; eithr cynnyg ydoedd, a chynnyg digon distadl hefyd, i dalu'r pwyth i'r Pabyddion. Diau mai dyna'r olwg yr edrychid ar y peth yn yr Iwerddon, a buasai yn ychwanegu os nad yn creu digllonedd a digasedd i fesur mawr.

Nid oes blynyddau lawer oddiar pan y gwreddolwyd Coleg Mainooth. Cyn hyny buasai yr Offeiriaid Gwyddelig yn myned i Rufain a Bologna i gael eu haddysg, yr hyn a ystyrid yn anffafriol i achosion gwladwriaethol Prydain Fawr, a'r Iwerddon yn enwedig. Yr ystyriaeth o hyny ynghyd a dymuniad i heddychu, fu yr achos i sefydlu Mainooth, a'r achos neilldiol i'r gwrthwynebiad a wneir yn awr i'r *grant* ydyw yr ymosodiad Pabyddol diweddar. Pan ofynwyd i Iarll Derby a fuasai efe i attal y grant i Mainooth; ei atteb gochelgar ydoedd, nas gwnai *yn bresenol.* Y mae ofn Pabyddiaeth ar lawer, ac nid heb achos. Dichon iddi, am dymor, barhau i ennill troedigion, ac i ennill dylanwad ar ddynion nad ydynt oll wedi deall egwyddorion Protestaniaeth. Ar y cyfan, ymddengys fod agwedd a honiadau Eglwys Rhufain, ar hyn o bryd, yn nhaleithiau Lloegr, y fath nas gall un dyn ystyriol edrych arnynt heb gryn ofal a phryder. Ond gobeithiwn y deuir yn fuan i dalu mwy o sylw a pharch i rydd-ymofyniad mewn pethau crefyddol. Os ceir hyny, ni bydd achos i ofni Pabyddiaeth.

Y PALAS GWYDR ETTO.

Y mae'r Ty Gwydr yn cael ei dynnu i lawr, y dyddiau hyn, ac yn cael ei symud o *Hyde Park.* Bydd yn dda, ond odid, gan lawer i gael gwybod y bydd cyfleustra iddynt gael ei weled etto—yr un adeilad wedi cael ei osod i fynu mewn lle newydd, yn Sydenham, ger Llundain. Gosodir ef yno mewn parc o 150 o erwi, yr hwn a blennir a choed o bob math ag a ellir eu codi maes y dai yn Lloegr. Bydd y Palas ei hunan i gynnwys gauaf-ardd o 18 erw, wedi ei llenwi a'r planigion a'r blodau mwyaf detholedig; ynghyd a phob cywreinwaith, &c., o bob gwlad fel yn yr Arddangosfa fawr y llynedd Nid yw Sydenham ond taith ychydig fynudau o Bont Llundain gyda'r rheilffordd. Cwblheir y Palas newydd mewn digon o amser i sicrhau ei agoriad ar y cyntaf o Fai, 1853.

Y CYFANDIR.

Diau fod y tawelwch sydd yn bresenol drwy oll o'r cyfandir, wrth fodd y gormesdeyrn. Lle y bu y cynhwrf a'r ymfrwydro gwyllt, yn achos cyfnewidiadau gwladwriaethol, y mae'r cwbl yr awrhon mor ddistaw a'r bedd. Ond nid aeth ystormydd chwyldroadau 1848 heibio, heb adael gwersi pwysig ar eu hol er addysg a rhybudd i lywodraethwyr a deiliaid. Da y sylwodd Mr. Disraeli yn ddiweddar yn Nhy y Cyffredin, "Wrth gyfeirio at yr iseliad a'r perygl y dygwyd brenhinoedd a phobloedd iddo, yn a thrwy y chwyldroadau diweddar a'u canlyniadau, fod y gwersi a ddysgent o'r pwysigrwydd mwyaf; os bydd y fath ysbryd terfysgus etto i gyfodi yn Ewrop, nas bydd mor hawdd i'w osod i lawr.

RWSSIA AC AWSTRIA.

Y mae Ymerawdwr Rwssia newydd dalu ymweliad i Ymerawdwr ieuangc Awstria, yn Vienna. Ac y mae wedi dyfod yn adna byddus mai prif ddiben yr ymweliad oedd ymgynghori a threfnu pa beth i wneud, gyda golwg ar ddigwyddiadau a ddichon gymeryd lle yn Ffraingc. O Vienna aeth Nicholas i ymweled a'i frawd-yn-nghyfraith, Brenin Prwssia. Y maent eill tri, y mae'n debyg, yn gytunol ac yn benderfynol, i gadw mor gaeth ag a fyddo yn bosibl at y trefniadau a gytunwyd arnynt gan Frenhinoedd Ewrop yn 1815. ar ddymchweliad llywodraeth Napoleon. Goddefir, dywedir, Louis Napoleon, hyd yn oed iddo alw ei hun yn Ymerawdwr, oni bydd iddo honni hawl etifeddiaethol i orsedd Ffraingc.

FRAINGC.

Yr oedd y 10fed o Fai yn ddiwrnod mawr yn Paris, ar yr achlysur o fod y Llywydd, L. Napoleon, yn cyflwyno banieri ac eryrod (arwydd y lywodraeth ymherodrawl) i'r fyddin Frengig, yn y Champ de Mars. Dywedir na welwyd y fath arddangosiad yn Paris erioed o'r blaen; oddieithr unwaith, a hynny ydoedd yn fuan ar ol y chwyldroad cyntaf. Sancteiddiwyd y banieri gan yr Arch-esgob a'r offeiriaid gyda rhwysg mawr. Yr oedd nifer afrifed o ddynion wedi casglu ynghyd. Aeth y diwrnod heibio yn dawel.

Y peth sydd yn ddiweddar wedi tynnu sylw cyffredinol ydyw llythyr y Count de Chambord, (Henri V. y geilw ei hun,) yn cynghori ei bleidwyr ef i beidio tyngu ffyddlondeb i lywodraeth L Napoleon; ynghyd a llythyrau y Cadfridogion Changarnier, Lamorciere, Bedeau a Leflo; yn gomedd tyngu ffyddlondeb.

Priodwyd:

Ebrill 14, yn Llanfihangel Ystrad, Mr. D. Davies, Crydd, ger Llanwenog, a Miss Mary Davies, Cwmcafan, ger Talsarn.

Ebrill 21, yn Nghapel-y-groes, Mr. D. Williams, (Dl. ab Dewi Farfog) o Lanbedr, a Mrs. Elizabeth Davies, Bwlchgwyn, Llanwenog.

Priodas addas iddynt,---eu llwydd
Fo'n lluddias pob drwg hynt;
Da, hwylus fyd, a helynt
Fal y beirddion gwiwlon gynt.

CWRTNEWYDD. W. J.

Atteb.

ATTEB I OFYNIAD "T. R.," TWYN-Y-WIG,

Yn Ymofynydd Mawrth diweddaf, tu dal. 73.

Ymdrechaf roddi cymmorth i'r gŵr o Dwyn-y-Wig,
A'i dynnu i maes o'i drallod, heb fod mewn ysbryd dig—
Pan oedd ynganol dryswch, ac hyd y mor-oedd maith,
I'r Gogledd o'r Cyhydedd, dau ugain gradd a saith,
Wyth munud gyda hynny, cyn byddo'r gwaith yn iawn,
Am wyth o'r gloch y boreu mewn oriau eitha llawn,
Pump deg, pump o funudau, ac eiliau tri deg yw,
Tro cyntaf daeth i'r golwg yr haul i roddi ei liw;
Yr ail olygfa gafodd yr un gymaint ar ol deg,
'Mhen dwy awr ar ol hynny, mae'r cyfri'n eithaf teg,
A'r pellder o'r gorllewin o Greenwich, meddaf fi,
Yn raddau pump a deugain, pa beth debygwch chwi;
Os ydwyf yn camsynied na roddwch arnaf fai,
Pob Cymro gaiff ail gynyg heb ryfyg medda' rhai.

C. J., MARCROSS.

Latitude 47° 8′ North.
1st Observation at 8*h.* 55*m.* 30*sec.*
2nd ditto at 10*h.* 55*m.* 30*sec.*
Longitude 45° West.

Barddoniaeth.

GROESAWIAD I'R GOG.

I'r Gog cant gwresog roesaw!—Dos seinia
Dy swynawl hen alaw,
O ddyffryn a bryn ffŷ braw,
O bencerdd; pan gnai bynciaw.

MEUDWY GLAN HAFREN.

St. Brid Fawr, Mai 4, 1852.

EDWIN AC ANGELINA.—CHWEDYL.

(*Efelychiad o Saes'naeg Doctor Oliver Goldsmith.*)

"TYR'D, Feudwy'r Glyn, ac arwain fi
O'r anial, yn dy law,
Nes cyrrhaedd, trwy'th gynnhorthwy di,
Y gwawl llettygar draw.

"Waith byr yw'm cam, ac unig wy',
A braw orleinw'm bron;
A'r ffordd ymestyn fyth yn hwy,
Po fwyaf deithiwyf hon!"

"Ymattal fab," y Meudwy ddwed,
"Rhag maglau'r nos—os ai
At yr hudlewyrn acw, cred,
I ddystryw'th arwain gai!

"Agored i'r anghenus, yw
Fy nghaban, nos a dydd;
Ac er mai symyl wyf yn byw,
Meddianaf galon rydd.

"O'r herwydd tyr'd, a'th roesaw frawd,
I bob peth sy'n fy nghell;
I'm llafrwyn wâl, a'm lluniaeth dlawd,
A'm hedd—ni feddaf well.

"Dan ddwylaw cigydd byth ni wnaf,
Ro'i un creadur byw;
Fe'm dysged, gan dosturi Naf,
I'w harbed hwynt, bob rhyw.

"Ond im' bob pryd, dieuog faeth,
Y maes llysieuog rydd;
A'r gloyw-ddwfr, dardd o'r ffynon ffaeth,
I'm disychedu sydd.

"Am hyn i bryder can yn iach,
Nid ydyw'n iawn yn wir!
'D'yw angen dyn, ond 'chydig bach—
Na'r 'chydig hyny'n hir!"

Fal tyner wlith ar flodau Mai,
Disgynai 'i eiriau mad—
Y crwydryn blin ei ddilyn wnai
I'w fwthyn, megis tad.

Yn monwes unig, bell y cwm,
O'r golwg, safai 'i dŷ;
'N amguddfa pob cymmydog llwm—
Lle'r truan crwydrol ffŷ.

Nid oedd o'i fewn ryw aur yn 'stor
I ddenu lladron gau;—
Gan godi'r clicied ar y ddôr,
I mewn yr aent eill dau.

Tra ereill oeddent yn eu hun,
Neu'n ynfyd, yn eu gwledd,
Gwnai'r Meudwy 'i dân, gan loni'r un.
Gyfranai iddo hedd.

A thaenai ei lysieuol faeth
Dan wenu, ar y bwrdd
O flaen ei gâr, â'i chwedlau ffraeth
Y swynai'r oriau ffwrdd.

O gylch. mewn cydymdeimlol chwèn,
Y llamai'r cathod mân;
A'r cricell griäi nerth ei ben,
Yn nghludwch gwres y tan.

Ond nid oedd dim a swynai fron
Y dieithr ddyn, oedd brudd;
Waith trallod a orlenwai hon,
Nes gwlychai'r dagrau'i rudd.

Canfyddai'r Meudwy 'i ofid ef;
A dwys ofidiai 'i hun:
O'r diwedd dwedai—"Beth is Nef
A friwia 'th galon, ddyn!

"Ai'th ddanfon wnaed o dý dy dad
Yn grwydryn hyd y byd?
Ai cyfaill gau a wnaeth dy frad?
Ai'th serch ga'dd wawd, ryw bryd?

"Och fab! holl fwyniant cyfoeth byd
Un diwerth iawn yw e;
A'r rhai a geisiant hwn o hyd,
Ynt fwy di werth tai le!

"A chyfeillgarwch enw yw!
A'n süa i gwsg, a'i sŵyn,—
Cydymaith llwyddiant o bob rhyw—
A edy'r gwan i'w gŵyn.

"A chariad—gwacach enw fyth!
Digrifwch meinir fâd!—
Nid yw'n anneddu, ond yn nyth
Y Durtur, yn ein gwlad!

"Dy dristwch gad—ac yn dy lid
Casha pob dynes, mwy!"—
'R ymwelydd, gyda'r gair, gan wrid,
Ddadguddiai faint ei glwy

Ei degwch ymbelydrai, 'nawr,
Gan daenu dros ei bryd,
Fal cwmmwl fo'n dadlenu'r wawr;—
Mor ddisglaer oedd y gwrid!

Ei drem—ei wefus fwyn a'i fron,
A'i bradent, un ac un!
Hyd nes y cyfaddefai hon
Mai *Dynes* oedd, ei hun!—

"Fy anfoesoldeb maddeu im',
Druanes wael," medd hi;
"Anturiais—ni ddylaswn ddim—
Lle triga Nef a thi!

"Ond ow! tosturia fun, fal hyn,
O gariad, weli'n glaf;
Wrth chwilio hedd, anobaith yn
Gydymaith im' a gaf!

"Gerllaw i'r *Tyne* anneddai'm tad,
O uchel waed a bri;
Ac, i feddianu 'i eang stâd,
Ni feddai ond myfi.

"I'm denu, ceisiai llawer un,
I adael tý fy Nhad:
Hwy 'm molent. fel prydferthaf fun
Anneddai yn y wlad.

"Rhif fawr o fonedd ddaent dau rith
Cariadau ffyddlon im';
Ymgrymai Edwin, yn eu plith,
Am serch, ni *soniai* ddim.

"Mewn symyl wisg, dangosai'n llon;
Heb fawr o aur na bri;—
Ond calon ddidwyll feddai; hon
Oedd oll yn oll i mi!

"Y blodau heirdd ar godiad haul,
Neu'r gwlith a loywa'r Nef;
Mewn tegwch, nid oent oll, ond ail
I'w feddwl disglaer ef!

"A gwammal swyn, ceir blodau'n gwau,
Dan wlith newidiol lun;—
Eu swyn fel Edwin welir—a'u
Gwammalrwydd fel fy hun;

"Er cuddio'm teimlad ymdrech wnawn,
Beunyddiol, "Na" f'ai 'm llef;
Ar farw o'i serch, gorfoledd gawn
Wrth wel'd ei drallod ef!

"Fy ngadaw'n ysglyf balchder wnai,
A'i fron ar dori'n ddwy;
I farw i ryw le unig ai;—
Ni welaf m'hono mwy!

"Ond immi perthyn oll y bai;
A'm bywyd, talaf iawn!
Ei feddrod chwiliaf, yn ddilai,
Lle caf orphwysfa lawn.

"A marw a raid a'm bron yn gaeth,
Heb gâr a wrendy'm cwyn!
O'm plegid, Edwin trengu wnaeth,
Gwnaf finau, er *ei* fwyn!"—

"Na atto'r Nef!" y meudwy ddwed,
Ac a gofleidiai'r fun—
Hi droiai'n ffrom—Ah!—prin y cred,
Ond Edwin yw ei hun!

"Gwel Angelina," meddai'n ffraeth,
"F' anwylyd gwel! myfi
Dy Edwin, fu yn ngholl, a ddaeth
I feddiant byd a thi!

"Fal hyn cofleidiaf di fy mun;
Fy nhrallod aed yn ddim
Yn dy gyfeillach,—ti dy hun
Sy' pob beth anwyl im'!

"O'r awr hon hyd y byddom byw,
Byth ni'n hysgarir mwy!
A'r hyn a rydd i'th galon friw,
Wna'm calon inau'n ddwy!"

D. L. Moses.

Haiarn-waith Amman, Mai, 15, 1852.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.